Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
DynolArweiniad ar gyfer y Sector Cyhoeddus

Arweiniad ar asesiadau o effaith ar gydraddoldeb

Arweiniad cam wrth gam i ymgorffori asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wrth lunio ac adolygu polisïau

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Tachwedd 2009

Mae gwefan y Comisiwn yn cynnwys gwybodaeth helaeth am y dyletswyddau, gan gynnwys rhagor o fanylion am ofynion penodol pob un. I weld amrywiaeth o ddogfennau arweiniad, gan gynnwys arweiniad statudol y Codau Ymarfer a nifer o adnoddau eraill, ewch i:

www.equalityhumanrights.com/publicsectorduties

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad **3**

Gwybodaeth am yr arweiniad hwn 3

Adran 2: Cyflwyniad i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb **4**

Beth yw asesiad o effaith ar gydraddoldeb? 4
Beth yw polisi? 5
Pwy sy'n 'llunio polisïau' ac yn 'adolygu polisïau'? 5
Sylw dyledus a chymesuredd 5
Pam asesu effaith? 6
Perthynas ag asesiadau o effaith eraill 9

Adran 3: Paratoi i gynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb: datblygu dull gweithredu cydlynol ledled y sefydliad **10**

Cam 1: Sicrhau dull gweithredu cyson: methodolegau a thempledi 11
Cam 2: Gweithio mewn partneriaeth a rhannu cyfrifoldeb dros lunio polisïau 12
Cam 3: Casglu a dadansoddi data mewn ffordd gywir a chyson 13
Cam 4: Prosesau cynnwys ac ymgynghori cadarnhaol 15
Cam 5: Hyfforddiant ym maes asesiadau o effaith ar gydraddoldeb 15
Cam 6: Systemau mewnol i sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal a'u bod o ansawdd digonol 16
Cam 7: Defnyddio asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i roi sylw dyledus i gydraddoldeb cyn ac yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar bolisïau 17
Cam 8: Cyhoeddi 17

Adran 4: Pwy ddylai gynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb, pryd y dylid ei gynnal a sut? **18**

4.1 Pwy ddylai gynnal yr asesiadau o effaith ar gydraddoldeb? 20
4.2 Pryd y dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb? 21

4.3 Cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb drwy'r broses datblygu polisi – y pum cam allweddol 22
Cam 1: Y cyfnod cyn datblygu polisi neu wrth gynllunio i adolygu polisi 22
Cam 2: Drafftio polisïau ac asesu effaith 31
Cam 3: Rhoi dulliau monitro, gwerthuso ac adolygu ar waith 38
Cam 4: Cymeradwyo a chyhoeddi'r polisi 49
Cam 5: Monitro ac adolygu'r cynllun gweithredu 40

Atodiad 1: Y dyletswyddau cyffredinol ar hil, rhyw ac i bobl anabl 41

Atodiad 2: Adnoddau 42

Atodiad 3: Geirfa 43

Adran 1: Cyflwyniad

Gwybodaeth am yr arweiniad hwn

Arweiniad i bwy?

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu neu adolygu polisïau neu wasanaethau yn y sector cyhoeddus, a/neu sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau cydraddoldeb ar sail hil, anabledd a rhyw (Dyletswydd Cydraddoldeb Hiliol, Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol). Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer sefydliadau yn y sector preifat sy'n gorfod cydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol wrth gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus ac sy'n defnyddio asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i wneud hynny. Mae'n cynnwys gwybodaeth ymarferol ac enghreifftiau o sefydliadau sydd wedi cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus i ymgorffori asesiadau yn eu gweithgareddau llunio polisïau a datblygu gwasanaethau.

Dull

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer y rhai sy'n gymharol gyfarwydd â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus (mae arweiniad mwy cyffredinol ar y dyletswyddau ar gael ar wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com). Rydym yn argymell y dylech ei ddarllen ochr yn ochr â'r codau ymarfer perthnasol.

Rydym wedi amlinellu'r camau mwyaf cyffredin wrth ddatblygu polisïau cyhoeddus er mwyn helpu'r rhai sy'n llunio polisïau i ymgorffori asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn eu systemau llunio ac adolygu polisïau eu hunain, beth bynnag yw maint y sefydliad. Mae sefydliadau gwahanol yn mynd ati i lunio ac adolygu polisïau mewn ffyrdd gwahanol. Yn hytrach na phennu un llwybr anhyblyg i'w ddilyn, rydym wedi cynnig dulliau y gellir eu hymgorffori mewn amrywiaeth o ddatblygiadau polisi a dulliau adolygu, ar gyfer polisïau newydd a chyfredol ac ar gyfer sefydliadau bach a mawr.

Mae'r arweiniad hwn yn ystyried profiadau'r rhai sydd wedi cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ac mae'n cynnwys enghreifftiau o sectorau gwahanol. (Noder: defnyddir enghreifftiau i amlygu agwedd benodol ar asesiad, ac nid yw'n golygu yn awtomatig bod yr asesiad cyfan yn cydymffurfio â'r gyfraith.)

Cwmpas

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi sylw penodol i ofynion cyfreithiol y tair dyletswydd gyfredol ar gyfer cydraddoldeb ar sail hil, rhyw (gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd) ac anabledd. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo, ac oedran, y disgwylir iddynt gael eu cynnwys mewn dyletswydd gydraddoldeb sengl erbyn mis Ebrill 2011. Mae'n berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Ceir gwahaniaethau bach rhwng gofynion cyfreithiol bob un o'r dyletswyddau cyfredol ac rydym wedi nodi'r rhain lle bo hynny'n berthnasol. O ran egwyddor gyffredinol, os oes gan unrhyw un o'r dyletswyddau ofyniad manylach, dylid ceisio ei roi ar waith ym mhob un o'r tair dyletswydd.

Cyfrifoldeb pob awdurdod cyhoeddus yw penderfynu a ddylid datblygu asesiadau o effaith ar gydraddoldeb sengl neu asesiadau ar wahân ar gyfer pob maes. Bydd yr arweiniad hwn yn helpu i sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn effeithiol drwy ychwanegu gwerth at y broses datblygu polisi/gwasanaeth, p'un ai drwy asesiadau sengl neu ar wahân.

Adran 2: Cyflwyniad i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb

Beth yw asesiad o effaith ar gydraddoldeb?

Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn ddull sy'n helpu awdurdodau cyhoeddus **(1)** i sicrhau bod eu polisïau a'r modd y cyflawnant eu swyddogaethau yn cyfiawnhau'r nod ac yn diwallu anghenion pawb. Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn helpu awdurdodau cyhoeddus i fodloni gofynion y dyletswyddau cydraddoldeb ac i nodi'r camau y gallant eu cymryd i hybu cydraddoldeb. Er mwyn cynnal asesiad, mae'n rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol (neu wirioneddol) polisïau ar bobl o safbwynt cydraddoldeb ar sail anabledd, rhyw a hil, a'r effeithiau ar feysydd cydraddoldeb ehangach lle bo awdurdodau yn dewis gwneud hynny. **(2)** Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i hybu cydraddoldeb sydd wedi cael eu colli yn y gorffennol neu gyfleoedd y gellir manteisio arnynt yn well, yn ogystal ag effeithiau negyddol a niweidiol y gellir eu dileu neu eu lliniaru, **(3)** lle bo hynny'n bosibl. Mae'n rhaid dileu unrhyw effeithiau negyddol neu niweidiol sy'n arwain at wahaniaethu.

Mae gan asesiad o effaith ar gydraddoldeb bedwar canlyniad posibl (ceir enghreifftiau yn Adran 4). Gall mwy nag un canlyniad ddeillio o bolisi sengl:

Canlyniad 1: Dim newid mawr: mae'r asesiad yn dangos bod y polisi yn gadarn ac nad oes posibilrwydd o wahaniaethu neu effaith niweidiol. Manteisiwyd ar bob cyfle i hybu cydraddoldeb.

Canlyniad 2: Addasu'r polisi: mae'r asesiad yn nodi problemau posibl neu gyfleoedd a gollwyd. Dylid addasu'r polisi i ddileu rhwystrau neu hybu cydraddoldeb yn well.

Canlyniad 3: Parhau â'r polisi: mae'r asesiad yn nodi'r posibilrwydd o effaith niweidiol neu golli cyfleoedd i hybu cydraddoldeb. Dylid cyfiawnhau'r rhesymau dros barhau â'r polisi yn glir. Dylid cynnwys y cyfiawnhad yn yr asesiad a sicrhau ei fod yn berthnasol i'r ddyletswydd dan sylw. Bydd angen rhesymau hynod gryf ar gyfer y polisïau perthnasol pwysicaf.

1 At ddibenion y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol, diffinnir awdurdodau cyhoeddus fel y rhai hynny a restrir yn Atodlen 1A Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976. O safbwynt y dyletswyddau yn ymwneud â rhyw ac anabledd, diffinnir awdurdod cyhoeddus fel unrhyw sefydliad sy'n 'sicr bod ei swyddogaethau o natur gyhoeddus'.

2 Mae'r gofynion cyfreithiol cyfredol yn ymwneud â chydraddoldeb ar sail hil, anabledd a rhyw, ond mae llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi penderfynu ymestyn hyn i gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gredo cyn y daw'r mesur cydraddoldeb yn gyfraith.

3 Ystyr 'lliniaru' yw rhoi mesurau ar waith sy'n lleihau'r effeithiau negyddol. Er enghraifft, gall darparu gwasanaeth dros y ffôn yn unig achosi problemau i'r rhai sydd â rhwystr iaith. Yn hytrach na newid y dull o ddarparu'r gwasanaeth, gellid lliniaru hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn.

Canlyniad 4: Atal a dileu'r polisi: mae'r polisi yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, neu fe allai wneud hynny. Rhaid atal a dileu'r polisi, neu ei newid (mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o'r dyletswyddau sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n diffinio gwahaniaethu anghyfreithlon).

Beth yw polisi?

Mae angen dehongli'r gair 'polisi' yn eang er mwyn ymgorffori'r amrywiaeth lawn o swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt: yn y bôn, popeth y mae'r awdurdod yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys polisïau cyfredol a pholisïau newydd sy'n cael eu datblygu.

Pwy sy'n 'llunio polisïau' ac yn 'adolygu polisïau'?

O safbwynt dyletswyddau sector cyhoeddus, diffinnir y sawl sy'n llunio neu'n adolygu polisïau fel unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau ar gynnwys polisi, sut y mae swyddogaeth yn cael ei chyflawni, pa weithgareddau sydd angen eu cynnal, sut y mae gwasanaethau yn cael eu darparu ac ati.

Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau unigolyn arweiniol sy'n 'berchen' ar y polisi. Dylai'r unigolyn hwn fod yn gyfrifol am gynnal yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac am sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth lunio neu adolygu'r polisi. Dylai pobl eraill sy'n cyfrannu at y gwaith gynnwys yr asesiad yn y gwaith datblygu polisi sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae penderfynu sut i weithredu polisi a ddatblygwyd yn rhywle arall yn swyddogaeth berthnasol hefyd, a hwyrach y bydd angen asesiad.

Sylw dyledus a chymesuredd

Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn un o'r dulliau allweddol a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol yn ymwneud â chydraddoldeb. **(4)** Mae'r rhain yn nodi bod angen rhoi sylw dyledus i gyflawni amcanion y dyletswyddau cyffredinol er mwyn ceisio sicrhau mwy o gydraddoldeb ar gyfer y grwpiau sy'n cael eu heffeithio. Mae sylw dyledus yn cynnwys dwy elfen gydgysylltiedig: cymesuredd a pherthnasedd. Dylai'r pwyslais y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei roi ar gydraddoldeb fod yn gymesur i'w berthnasedd i swyddogaeth benodol. Po fwyaf yw perthnasedd swyddogaeth i gydraddoldeb, po fwyaf o bwyslais sydd angen ei roi.

Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn hanfodol bwysig i hyrwyddo sylw dyledus. Maen nhw'n gallu helpu awdurdodau cyhoeddus i ddeall perthnasedd ac effaith polisïau yn llawn, a'u helpu i nodi'r ymatebion mwyaf cymesur ac effeithiol.

Asesiadau o effaith ar gydraddoldeb: rhai gwirioneddau sylfaenol

- Nid ymarferiad dibwrpas yw llunio asesiadau – maen nhw'n dangos bod sylw dyledus wedi cael ei roi i'r dyletswyddau cyffredinol.
- Dylai asesiadau fod yn rhan annatod o ddatblygu ac adolygu polisïau yn hytrach nag yn ymarferiad a gynhelir unwaith neu ar wahân.

4 Amlinellir y rhain yn Atodiad 1. Mae mwy o fanylion ar gael yn y codau ymarfer a'r arweiniad cysylltiedig, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn yn: www.equalityhumanrights.com

- Nid yw asesiadau yn ymwneud â mynd i'r afael â gwahaniaethu neu effaith niweidiol yn unig; dylent hefyd hybu cyfle cyfartal, mynediad gwell, cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus a chysylltiadau da.
- Dylid asesu effaith polisïau sy'n berthnasol i gydraddoldeb, gan sicrhau bod y polisïau mwyaf perthnasol yn cael eu hasesu yn gyntaf ac yn fwyaf trylwyr.
- Bydd ansawdd asesiad yn cael ei fesur ar sail ansawdd y dadansoddiad, y camau a gymerwyd a'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy ei weithredu, ac nid ar sail nifer ei dudalennau.
- Dylai'r amser a'r ymdrech sy'n cael eu neilltuo fod yn gymesur â pherthnasedd y polisi.
- Bydd yn anodd llunio asesiad da heb dystiolaeth dda.
- Nid yw diffyg data byth yn esgus dros beidio ag asesu effaith – bydd rhywfaint o ddata ar gael bron bob tro, ac os nad oes data ar gael dylid mynd ati i'w gasglu.
- Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n deillio o gynnwys ac ymgynghori â phobl yn hanfodol bwysig, a dylid cynnal prosesau cynnwys ac ymgynghori fel rhan o'r prif broses datblygu polisi fel arfer.
- Dylai asesiadau gynnwys cynllun gweithredu bob amser.
- Mae'n rhaid i asesiadau lywio'r penderfyniad polisi terfynol bob amser.
- Oni bai bod eich polisi eisoes yn berffaith o safbwynt cydraddoldeb (sy'n annhebygol iawn), dylai asesiad arwain at newid polisi.

Pam asesu effaith?

Yr ateb syml yw bod hyn yn ofyniad cyfreithiol i lawer o sefydliadau. Ond yn bwysicach, mae'n ffordd effeithiol o wella'r gwaith o ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau, sicrhau bod sefydliadau yn ystyried anghenion eu cymunedau, nodi camau posibl i hybu cydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu. Mae'n sicrhau bod polisïau yn cael eu llunio ar sail tystiolaeth, sy'n ganolog i bolisi cyhoeddus modern, ac mae'n gallu arwain at arbedion effeithlonrwydd yn sgil gwasanaethau mwy effeithiol.

Gweithredu effeithiol ym maes cydraddoldeb

Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn gyfle i gymryd camau effeithiol ym maes cydraddoldeb. Mae angen i'r gwaith o atal gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb gynnwys mwy na dim ond osgoi camau ac ymddygiad penodol. Mae'n rhaid mynd ati i gymryd camau i nodi a dileu gwahaniaethu posibl, neu addasu gwasanaeth i hybu cydraddoldeb yn well. Er enghraifft, dylai polisïau adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth a wasanaethir, sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal ac ystyried cyfrifoldebau gofal anghyfartal. Dylent hefyd gydnabod y gall darparu'r un gwasanaeth yn yr un ffordd i bawb greu anfantais weithiau.

Enghraifft
Nododd awdurdod lleol fod arwahanu yn y gweithle ar waith yn ei dimau arolygu iechyd yr amgylchedd. Roedd y mwyafrif llethol o fenywod a phobl o leiafrifoedd ethnig yn gweithio yn y cefndir yn hytrach nag yn cyflawni gwaith arolygu rheng flaen. Cyflwynodd yr awdurdod lleol raglen hyfforddi a gynorthwyir ar gyfer y gweithwyr hyn, gan wella mynediad i gymwysterau proffesiynol a ddilysir yn allanol. Arweiniodd hyn at fwy o fenywod a phobl o leiafrifoedd ethnig yn cymhwyso ar gyfer y graddfeydd adolygu.

Llunio polisïau ar sail tystiolaeth

Dylai gwasanaethau cyhoeddus modern gael eu llywio gan brosesau llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn golygu defnyddio tystiolaeth i lunio polisïau llwyddiannus yn ôl y wybodaeth sy'n hysbys i ni, neu os oes gennym resymau gwrthrychol cryf dros gredu y bydd y polisïau'n llwyddo. Heb dystiolaeth, mae'n gallu bod yn amhosibl gwybod a fydd bwriadau da yn arwain at ganlyniadau da. Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cynnig ffordd glir a threfnus o gasglu, asesu a chyflwyno tystiolaeth o'r fath.

Mae nifer o awdurdodau cyhoeddus wedi canfod bod ystyried polisi penodol o safbwynt cydraddoldebau wedi arwain at wella effaith ehangach y polisi hwnnw a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Enghraifft
Defnyddiodd awdurdod lleol ei fethodoleg o asesu'r effaith ar gydraddoldeb i adolygu'r defnydd o'i wasanaeth 'pryd ar glud'. Dangoswyd nad oedd llawer o ddefnydd o'r gwasanaeth ymysg pobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Penderfynodd yr awdurdod ail-drafod y cytundeb a darparu amrywiaeth o brydau bwyd a fyddai'n fwy tebygol o apelio at amrywiaeth ehangach o bobl. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o leiafrifoedd ethnig yn defnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal â lefelau bodlonrwydd gwell ymysg defnyddwyr 'Prydeinig Gwyn' a nododd fod dewis ac ansawdd y bwyd wedi gwella.

O ganlyniad i'r llwyddiant hwn, datblygodd yr awdurdod systemau ledled y sefydliad i fonitro cydraddoldebau, cynnwys pobl a chynnig cymorth iaith. Roedd yn gallu gwella ei waith, darparu gwasanaethau gwell a mwy ymatebol, ac arbed arian.

Mae'r defnydd o gynlluniau gweithredu mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn helpu awdurdodau cyhoeddus i fonitro effaith wirioneddol cyflwyno polisi yn fwy effeithiol. Gall hyn fod yn effeithiol iawn pan fydd y cynlluniau gweithredu yn llywio monitro a gwerthuso prif ffrwd.

Arbedion effeithlonrwydd

Gall asesiadau o effaith ar gydraddoldeb helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'n bosibl gwneud arbedion effeithlonrwydd heb achosi problemau drud yn is i lawr neu ar gyfer rhannau eraill o'r sefydliad.

Enghraifft
Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb gwasanaeth trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat wedi helpu i newid polisi gorfodaeth, hyrwyddo diogelwch gyrwyr ac adennill ymddiriedaeth gyrwyr yn yr awdurdod lleol.

Nododd Cyngor Dinas Bryste nifer o gwynion gan yrwyr tacsi a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg. Roedd mwyafrif y gyrwyr yn perthyn i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Dangosodd ddadansoddiad o'r data fod newidiadau sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd o safbwynt y bobl sy'n ymgeisio am drwydded. Roedd cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y ceisiadau gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac roedd llawer o'r rhain yn siarad Saesneg fel ail iaith.

Amlygwyd problemau cyfathrebu ac anawsterau deall rheoliadau. Roedd angen i swyddogion fynd ati'n fwy dyfal i egluro rheoliadau trwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat, gan gydnabod bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn enwedig yn llai

tebyg o gael mynediad i'r wybodaeth hon drwy gysylltiadau teuluol neu fasnach. Roedd camau gorfodi yn erbyn gyrwyr yn cael effaith negyddol ar deimladau'r gyrwyr am y cyngor, ond roedd angen i yrwyr ddeall sut oedd y rheoliadau wedi cael eu torri a beth yn union oedd eu cyfrifoldebau unigol.

Adolygwyd y polisi yn dilyn yr asesiad er mwyn pwysleisio elfennau fel hyrwyddo ac atal. Arweiniodd hynny at y camau canlynol:

- cynhyrchwyd gwybodaeth hygyrch am reolau a rheoliadau
- darparwyd hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau a swyddogion gorfodi Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd
- cyflwynwyd monitro ethnigrwydd gyrwyr, a
- rhoddwyd mwy o gymorth i yrwyr a oedd yn dioddef aflonyddu hiliol.

Yn ôl y gwasanaeth, mae llai o gamau gorfodi bellach ac mae mwy o ymddiriedaeth ymysg y gyrwyr. Os oes rhaid iddynt ddod gerbron y Pwyllgor, mae'r rhan fwyaf o yrwyr yn derbyn bod yna dystiolaeth gadarn i gyfiawnhau hynny.

Enghraifft
Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn nodi arferion da i gynorthwyo staff yn ystod newidiadau sefydliadol mawr.

Pan aeth Gwasanaeth Prawf Llundain ati i gynnal adolygiad mawr o'r sefydliad, roedd disgwyl y byddai rhai swyddi'n cael eu dileu. Cynhaliwyd asesiadau adeg cyflwyno'r cynigion i ystyried cydraddoldeb mewn perthynas ag uwch aelodau o staff, staff gweinyddol a staff y ganolfan gorfforaethol. Nododd y ddau asesiad fod effaith negyddol ar fenywod ac ar staff du a staff hŷn yn bosibilrwydd. Byddai llai o swyddi ar gael, yn enwedig ar lefel uwch reolwyr. Roedd llawer o staff hŷn wedi bod yn eu swyddi am nifer o flynyddoedd ac nid oedd ganddynt unrhyw brofiad diweddar o ymgeisio am swyddi na chael cyfweliadau.

Cynigiwyd rhaglen gymorth i bob aelod o staff yn canolbwyntio ar wybodaeth am broses y ganolfan asesu, yn ogystal â thechnegau ymgeisio am swyddi a chyfweliadau, cyngor ar yrfaoedd a chymorth i ysgrifennu CV.

Dangosodd adolygiad o'r broses recriwtio ar gyfer uwch aelodau o staff yn dilyn y broses ailstrwythuro fod cynnydd wedi bod yn nifer yr uwch reolwyr du. Nid oedd unrhyw effaith negyddol ar fenywod na staff anabl chwaith. Ceir cydbwysedd mwy cyfartal bellach rhwng menywod a dynion ymysg y staff gweinyddol. Mae'r broses asesu wedi helpu'r gwasanaeth i ddeall y gweithlu yn well, a bydd gwaith monitro yn cael ei wneud yn y cyswllt hwn yn rheolaidd.

Perthynas ag asesiadau o effaith eraill

Wrth gynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, mae'n bwysig ystyried y berthynas ag asesiadau eraill. Mae asesiadau risg yn gallu darparu gwybodaeth ddefnyddiol, felly hefyd asesiadau o effaith ar iechyd neu hawliau dynol, ymysg eraill. Mae'n ofynnol i adrannau ac asiantaethau llywodraeth gynnal 'asesiadau o effaith' ('asesiadau effaith rheoleiddiol' cynt) sy'n ystyried ffactorau fel cost a buddion, ac effeithiau amgylcheddol ac iechyd, ac mae rhai wedi penderfynu ymgorffori asesiadau o effaith ar gydraddoldeb hefyd. Os yw hyn yn digwydd, mae'n rhaid i'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb fod yr un mor fanwl ag asesiad unigol.

Arweiniad llywodraeth y DU ar asesiad o effaith

http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/policy/scrutinising-new-regulations/preparing-impact-assessments/page44077.html

Gwybodaeth llywodraeth yr Alban am asesiadau effaith rheoleiddiol

http://www.scotland.gov.uk/Topics/Business-Industry/support/better-regulation/guidance/RIA-guidance

Adran 3: Paratoi i gynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb: datblygu dull gweithredu cydlynol ledled y sefydliad

Er mwyn sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn effeithiol, rhaid eu cynnal yn systematig ledled y sefydliad a chan bob rhan ohono. Dylid eu cynnal mewn ffordd sy'n effeithiol ac yn gymesur â maint a strwythur y sefydliad. Y peth pwysig yw sicrhau eu bod yn cyflawni eu nod ar gyfer y rhai sy'n eu cynnal, gan esgor ar y canlyniadau a'r gwelliannau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol ym maes cydraddoldeb.

Bydd yr wyth cam canlynol yn gymorth i ddatblygu dull gweithredu cydlynol wrth gynnal asesiadau effeithiol a'u sefydlu ledled y sefydliad. Mae'r camau'n gorgyffwrdd ac yn gallu atgyfnerthu ei gilydd:

1. Sicrhau dull gweithredu cyson o safbwynt methodolegau a thempledi.
2. Gweithio mewn partneriaeth a rhannu cyfrifoldeb dros lunio polisïau.
3. Casglu a dadansoddi data mewn ffordd gywir a chyson.
4. Cynnwys aelodau o staff mewn ffordd gadarnhaol ac ymgynghori.
5. Hyfforddiant ym maes asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.
6. Systemau mewnol i sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal a'u bod o ansawdd digonol.
7. Defnyddio asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i roi sylw dyledus i gydraddoldeb cyn ac yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar bolisïau.
8. Cyhoeddi.

Cyngor ar gyfer sefydliadau bach
Mae'r camau gwahanol yn gallu gorgyffwrdd yn sylweddol, gydag un o'r camau'n cyflawni nifer o amcanion gwahanol.

Er enghraifft, mae cyngor bychan yn defnyddio'r broses o ddatblygu partneriaethau i gydweithio â chynghorau cyfagos er mwyn cynnwys grwpiau pobl anabl lleol (Camau 2, 3 a 4). Mae'r grwpiau'n croesawu'r cyfle i gyfarfod â nifer o gynghorwyr ar yr un pryd, sy'n arbed adnoddau sylweddol iddyn nhw a'r cyngor.

Drwy gymryd y cam syml hwn, mae'r cyngor yn sicrhau bod:

- cydgysylltu gwell gyda chynghorau cyfagos (Cam 2)
- sail tystiolaeth gryfach ar gyfer asesiadau (Camau 3 a 4)
- mwy o ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phobl anabl ymysg cynghorwyr (Cam 5), a
- mwy o hyder ym mhenderfyniadau'r cyngor ymysg rhanddeiliaid anabl (Cam 4).

Cam 1: Sicrhau dull gweithredu cyson: methodolegau a thempledi

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus unigol ddatblygu eu methodoleg asesiadau o effaith ar gydraddoldeb eu hunain er mwyn adlewyrchu union natur eu busnes yn llawn a sicrhau cysondeb. Mae amrywiaeth eang o ddulliau gwahanol wedi cael eu defnyddio, ac mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio at lawer ohonynt. Mae Adran 3 yn rhoi amlinelliad manwl o'r hyn sydd angen ei gynnwys, a dylai sefydliadau ddefnyddio hyn fel man cychwyn i ddatblygu dull gweithredu sy'n berthnasol i'w sefydliad a'u swyddogaethau eu hunain.

Dylai'r dull a ddefnyddir fod yn glir a threfnus, dylai ystyried cydraddoldeb yn llawn a bod ar gael i'w ddefnyddio bob dydd gan y rhai sy'n llunio polisïau. Mae hefyd yn syniad da gofyn i arbenigwyr sy'n deall y dyletswyddau cyfreithiol yn llawn ddogfennu a gwirio'r templed neu'r dull. Gellid gofyn i arbenigwyr mewnol, cyfreithwyr allanol sy'n arbenigo yn y dyletswyddau, ac ati.

Awgrymiadau a chyngor
Bydd yn ddefnyddiol i bob sefydliad, yn enwedig rhai bach, roi fframwaith clir ar waith. Gellir arbed arian wrth gynnal yr asesiadau drwy neilltuo amser, ac efallai arian, ar gyfer cyngor priodol yn y lle cyntaf.

Mae dull asesiad o effaith ar gydraddoldeb da:

- yn canolbwyntio ar yr amcanion cydraddoldeb ac ar nodi'r camau angenrheidiol
- wedi'i wirio gan rywun sy'n arbenigo ym maes cyfraith gwrth-wahaniaethu a chydraddoldeb
- yn cael ei gefnogi gan hyfforddiant sy'n ystyried beth sy'n digwydd, sut y mae'n digwydd a pham y mae'n digwydd
- yn dogfennu unrhyw benderfyniad i beidio â chynnal asesiad, ynghyd â'r rhesymau a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd
- yn cynnwys adrannau sy'n berthnasol i gamau gwahanol o'r broses o ddatblygu polisïau
- yn defnyddio cwestiynau agored, gydag enghreifftiau i annog ymatebion
- yn gofyn am gasglu a defnyddio gwybodaeth fanwl, gan gynnwys data lefel gwasanaeth a chanlyniadau ymgynghori a/neu gynnwys
- yn sicrhau bod prosesau ymgynghori a chynnwys ar waith i lywio'r asesiad
- yn cael ei awdurdodi gan y rhai yn y sefydliad sy'n gymwys i wneud hynny
- yn cael ei ddefnyddio'n glir wrth wneud penderfyniadau ar bolisi, ac
- yn cynnwys cynllun gweithredu, gan gynnwys camau sy'n monitro effaith wirioneddol y polisi unwaith y mae'n cael ei roi ar waith.

Mae'n bwysig dogfennu asesiadau o effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cyflawni. Mae'n hanfodol bwysig defnyddio templed neu fethodoleg dda ar gyfer asesiadau. Yn achos R (Kaur and Shah) v London Borough of Ealing, dyfarnwyd y canlynol:

'The process of assessments should be recorded … records contribute to transparency. They serve to demonstrate that a genuine assessment has been carried out at a formative stage. They further tend to have the beneficial effect of disciplining the policymaker to undertake the conscientious assessment of the future impact of [his/her] proposed policy.' **(5)**

Cam 2: Gweithio mewn partneriaeth a rhannu cyfrifoldeb dros lunio polisïau

Gweithio mewn partneriaeth

Mae nifer o fanteision i weithio mewn partneriaeth. Gall sefydliadau bach rannu adnoddau a chefnogi ei gilydd. Gall hefyd sicrhau nad yw polisïau a ddatblygwyd gan awdurdodau cyhoeddus gwahanol yn dyblygu ymdrechion, a bod prosesau ymgynghori a chynnwys yn ystyrlon.

Enghraifft
Nid oes gan gyngor lleol ddigon o ddata ar nodweddion demograffig ei ardal. Mae'r cyngor yn sylweddoli y bydd awdurdodau cyhoeddus lleol eraill (ysgolion, asiantaethau iechyd, yr heddlu, ac ati) yn wynebu'r un broblem, ac yn penderfynu cysylltu â nhw. Maent yn rhannu'r data sydd ganddynt ac yn comisiynu ymchwil newydd, gan rannu'r costau a manteision y canlyniadau. Drwy wneud hyn maent hefyd yn sylweddoli bod llawer o'u polisïau'n gorgyffwrdd ac maent yn sefydlu gweithgor parhaol i rannu gwybodaeth ac adnoddau, gan sicrhau bod modd cydweithio wrth ddatblygu asesiadau lle bo hynny'n briodol.

5 R (Kaur and Shah) v London Borough of Ealing [2008] Yr Uchel Lys 2026 (Gwein.).

Dylai partneriaethau cydraddoldeb ddatblygu prosesau cydweithio sydd eisoes ar waith, fel partneriaethau strategol lleol a byrddau diogelu plant.

Rhannu cyfrifoldeb dros lunio polisïau

Mae llawer o sefydliadau, yn enwedig asiantaethau gweithredol adrannau'r llywodraeth, yn cyflwyno ac yn gweithredu polisïau sy'n cael eu datblygu yn rhywle arall.

Enghraifft
Yn dilyn asesiad o ddyletswyddau sector cyhoeddus yr Adran Gwaith a Phensiynau a gynhaliwyd gan y Comisiwn drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, argymhellwyd y dylai'r Ganolfan Byd Gwaith adolygu ei becyn cymorth ac arweiniad ar asesiadau o effaith ar amrywiaeth er mwyn sicrhau, ymysg pethau eraill:

- Proses integreiddio fwy di-dor rhwng gwaith ar asesiadau o effaith ar amrywiaeth a gynhelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith fel bod gwaith ar bob lefel (yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol) yn ychwanegu gwerth at y gwaith sydd wedi'i gwblhau eisoes ac yn osgoi dyblygu ymdrechion a gwaith papur.
- Bod y Ganolfan Byd Gwaith yn datblygu asesiadau o effaith ar amrywiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau lle bo hynny'n bosibl, yn hytrach na chynhyrchu dogfennau newydd (oni bai bod Canolfan Byd Gwaith wedi datblygu neu gyflwyno'r polisi ei hun). Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn fwy effeithiol i'r Ganolfan Byd Gwaith ddarparu mewnbwn gweithredol i asesiadau sy'n cael eu gweithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau adeg datblygu'r polisi a pharhau i wneud hynny gydol oes y polisi, yn hytrach na dechrau ei asesiad annibynnol ei hun pan fydd yn gorfod gweithredu'r polisi yn ddiweddarach.

Yn aml iawn mae polisïau sy'n cael eu llunio er mwyn cael effaith gadarnhaol yn dibynnu'n drwm ar y dull o'u gweithredu. Bydd angen i'r sawl sy'n llunio'r polisi fonitro hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd.

Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu polisïau gynnal eu hasesiad eu hunain er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei hybu yn y cyfnod hwn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n gwneud synnwyr bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer polisïau o'r fath yn gysylltiedig, ac rydym yn cynghori'n gryf y dylai sefydliadau o'r fath gydweithio i sicrhau bod templedi'r asesiadau wedi'u hintegreiddio'n llawn.

Mae hyn yn helpu i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol fel bod asesiadau o ansawdd uchel yn cael eu llunio.

Cam 3: Casglu a dadansoddi data mewn ffordd gywir a chyson

Er y bydd angen casglu data wedi'i deilwra ar gyfer asesiadau o effaith ar gydraddoldeb unigol, mae'n llawer mwy effeithlon casglu mathau penodol o ddata, fel ystadegau ar gyflogaeth, ymchwil gyffredinol ac ati, ledled y sefydliad fel rhan o broses casglu a dadansod di data prif ffrwd. Dylid sefydlu adnodd dibynadwy y gall y rhai sy'n llunio polisïau ei ddefnyddio a chyfrannu ato wrth gynnal asesiadau. Yn ogystal â defnyddio data cydraddoldeb mewnol, bydd angen i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio gwaith ymchwil lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd, yn enwedig os oes prinder data mewnol.

Dylai sefydliadau sydd eisoes yn casglu data yn rheolaidd neu sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil wrth lunio polisïau ar sail tystiolaeth gynnwys casglu data ar gydraddoldeb yn y strwythurau hyn.

Cyngor i sefydliadau bach
Dylai sefydliadau llai ystyried dynodi rhywun i gasglu gwybodaeth wrth iddi ddod i'r amlwg, neu rannu adnoddau â sefydliadau eraill i ddatblygu cronfa ddata gyffredin.

Mae sefydliadau sy'n gorfod cael cynlluniau cydraddoldeb yn ôl y gyfraith eisoes â dyletswydd i roi systemau ar waith i gasglu data ar ethnigrwydd, anabledd (wedi'u dadgyfuno ar sail natur y nam) a rhyw (menywod a dynion, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd) wrth gyflawni eu dyletswyddau. Dylai awdurdodau cyhoeddus hefyd gyflwyno systemau casglu data ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo (gan gynnwys y rhai sydd heb unrhyw grefydd na chredo), ac oedran lle bo hynny'n briodol.

Enghraifft
Mae'r awdurdod iechyd strategol lleol, NHS North West, wedi sefydlu *North West Health Equality Library Portal* (HELP). Datblygwyd rhwydwaith canolog sy'n cynnig gwybodaeth gyfredol, hygyrch, wedi'i rheoli'n dda am gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn:

- helpu i gynhyrchu asesiadau o effaith ar gydraddoldeb effeithiol ar gyfer pob strategaeth, polisi, cynllun neu weithgaredd
- helpu ymddiriedolaethau gofal sylfaenol i gydymffurfio â chymhwysedd comisiynu safon byd (rheoli gwybodaeth ac asesu anghenion)
- nodi bylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth
- rhannu arferion gorau a deunydd polisi, ac osgoi unrhyw ddyblygu ymdrechion diangen, a
- chynorthwyo arweinwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth i wneud eu gwaith.

www.help.northwest.nhs.uk

Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio systemau casglu data fod yn ymwybodol o'r sensitifrwydd a'r pryderon yn y maes hwn a sicrhau bod eu systemau nhw'n llwyddo i'w goresgyn. Mae amrywiaeth o ganllawiau manwl ar gael i gefnogi hyn, a chyfeirir at rai ohonynt yn Atodiad 2. Mae hyn yn cynnwys arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynu Gwybodaeth (www.ico.gov.uk) ar y rheolau sydd i'w dilyn wrth ddefnyddio'r eithriadau i'r rheolau diogelu data sy'n caniatáu defnyddio data cydraddoldebau personol. Y peth pwysig yw sicrhau bod y data angenrheidiol yn cael ei gasglu fel bod modd cynnal asesiadau a bod yn hyderus yn y canfyddiadau.

Enghraifft
Mae Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth Gwasanaethau Cenedlaethol GIG yr Alban wedi cyflwyno nifer o fentrau i wella prosesau casglu data yn y GIG, gan gynnwys pecyn cymorth i fonitro ethnigrwydd. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys canllawiau ac adnoddau hyfforddi i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gweithredu sut mae ethnigrwydd cleifion yn cael ei fonitro o fewn GIG yr Alban. Mae'n cynnwys polisi a chefndir cyfreithiol, yn ogystal ag arweiniad ar reoli prosiectau a dosbarthiad ethnigrwydd. Rhan bwysig o'r pecyn cymorth yw'r adran canllawiau ar gyfathrebu sy'n cynnwys syniadau ar gyfer dulliau cyfathrebu a rhai deunyddiau cyfathrebu drafft. www.isdscotland.org/ethnicmonitoringtoolkit

Mae DVD hyfforddi yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer staff sy'n gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau am wybodaeth fwy personol ym mhob maes amrywiaeth (oedran, anabledd, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd). Mae gwybodaeth ategol ar gael yn: www.isdscotland.org/equalityhappytoaskdvd

Cam 4: Prosesau cynnwys ac ymgynghori cadarnhaol

Yn ôl y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol, mae'n rhaid ymgynghori ar bolisïau yn ogystal â'u hasesu. Er nad yw'r dyletswyddau yn ymwneud â rhyw a phobl anabl mor benodol, maent yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnwys pobl anabl ac ymgynghori â menywod a dynion fel dull allweddol o gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb. Dylai awdurdodau cyhoeddus sydd eisoes yn gweithredu eu cynlluniau cydraddoldeb gynnwys pobl anabl ac ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb eraill yn rheolaidd.

Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gallu deillio o brosesau cynnwys ac ymgynghori yn hanfodol bwysig i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae'n sicrhau bod pobl sy'n cael eu heffeithio gan y ffordd mae awdurdod cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau yn cael mewnbwn gwirioneddol, ac mae'n gwella canlyniadau ac yn grymuso defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr cyflogedig.

Fel rhan o brosesau datblygu polisïau rheolaidd, yn aml mae angen cynnwys ac ymgynghori â grwpiau sy'n cael eu heffeithio er mwyn llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae angen i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb o ansawdd da fanteisio ar hyn. Dylai dulliau cynnwys ac ymgynghori ehangach gynnwys cymunedau a grwpiau y mae'r dyletswyddau sector cyhoeddus yn berthnasol iddynt a grwpiau cydraddoldeb ehangach. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn wynebu rhwystrau penodol i gymryd rhan, sy'n golygu bod angen gweithgareddau a chefnogaeth allgymorth penodol, wedi'u targedu.

Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael ar sut i gynnwys pobl ac ymgynghori (am fwy o wybodaeth gweler Atodiad 2).

Enghraifft
Sylweddolodd un awdurdod cyhoeddus fod angen hwb i hyder pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) er mwyn cael mwy i gymryd rhan mewn digwyddiadau. Aeth yr awdurdod ati i:

- gymryd rhan ym mis hanes LGBT
- dynodi swyddogion allweddol i fynychu cyfarfodydd fforwm LGBT lleol
- prynu gofod hysbysebu yn y wasg LGBT, a
- chael lori yn yr orymdaith 'Pride' LGBT leol.

O ganlyniad, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymatebion i ddigwyddiadau cyfranogi a lefelau bodlonrwydd cyffredinol ymysg trigolion a sefydliadau rhanddeiliaid LGBT lleol.

Cam 5: Hyfforddiant ym maes asesiadau o effaith ar gydraddoldeb

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyfforddi staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bodloni gofynion y dyletswyddau. Argymhellir yn gryf bod angen gwneud hyn ar gyfer y seiliau cydraddoldeb eraill. Dylai'r hyfforddiant fod yn addas ar gyfer cyfrifoldebau penodol yr aelodau o staff sy'n cymryd rhan ac yn berthnasol i gynllun/cynlluniau cydraddoldeb a phecyn cymorth asesiadau'r awdurdod ei hun. Dylid ystyried pam y mae angen cynnal asesiadau, beth i'w gynnwys a sut i fynd ati, fel bod y rhai sy'n llunio polisïau yn gallu canolbwyntio ar y canlyniadau dymunol.

Mae'n arbennig o bwysig bod hyfforddiant ar gyfer uwch aelodau o'r bwrdd (gan gynnwys aelodau anweithredol) yn eu helpu i gyflawni eu gwaith craffu ar gydraddoldeb, a sicrhau

eu bod yn defnyddio asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Ni ddylid ystyried hyn yn ymarferiad sy'n cael ei gynnal unwaith. Dylid darparu hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn cynnwys aelodau newydd o staff a darparu'r hyfforddiant diweddaraf i aelodau cyfredol o staff.

Cam 6: Systemau mewnol i sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal a'u bod o ansawdd digonol

Bydd angen rhoi systemau mewnol ar waith er mwyn sicrhau ansawdd asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Dylai systemau o'r fath fod yn gymesur â maint ac adnoddau'r awdurdod cyhoeddus, a chael eu cefnogi ar lefelau uwch. Mae sefydliadau wedi:

- cyflwyno eitem agenda sefydlog ar gyfer eu bwrdd yn ymwneud ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a'r dyletswyddau ehangach
- sefydlu gweithgor mewnol, o dan gadeiryddiaeth aelod o'r uwch dîm rheoli, yn cynnwys cynrychiolydd o bob adran neu gyfarwyddiaeth er mwyn monitro cynnydd ledled y sefydliad mewn perthynas ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a'r dyletswyddau ehangach
- cynnal hapwiriadau ar sampl o asesiadau er mwyn pwyso a mesur eu hansawdd
- sicrhau bod polisïau perthnasol ac asesiadau yn cael eu cymeradwyo gan arweinwyr cydraddoldeb ac aelod o'r tîm uwch reoli, gyda thempledi asesiadau'n cael eu haddasu i gynnwys adran gymeradwyo, a
- chyflwyno panel o arbenigwyr lefel uwch lleol a fydd yn 'gyfeillion beirniadol' ac yn rhoi her bendant i swyddogion yn ymwneud ag asesiadau.

Er mai'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau a ddylai ymgymryd ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb, gall nodi unigolyn, uned neu dîm perthnasol i gynorthwyo gwaith yr awdurdod ar gydraddoldeb (ac ar asesiadau yn benodol) helpu i sicrhau cysondeb ac ansawdd. Mae awdurdodau cyhoeddus wedi:

- cyflogi swyddog cydraddoldeb newydd i gydgysylltu a darparu cyngor, neu wedi nodi aelod cyfredol o staff sydd eisoes yn gyfrifol am gydgysylltu gweithgareddau, gan roi hyfforddiant arbenigol iddo y gall wedyn ei ledaenu ledled y sefydliad, a
- symud timau cydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli o unedau adnoddau dynol i adran y prif weithredwr er mwyn cydgysylltu camau gweithredu'n well drwy'r sefydliad i gyd.

Enghraifft: craffu mewnol
Mae awdurdod cyhoeddus wedi sefydlu is-grŵp Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Prif Weithredwr sy'n cyfarfod pob deufis. Y prif weithredwr yw'r cadeirydd ac mae'r is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr lefel uwch a enwebwyd o bob cyfarwyddiaeth. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- sicrhau bod pob adran yn ymgymryd â'r holl weithgareddau yn ymwneud â dyletswyddau
- gwirio cynnydd yr adrannau ar ymrwymiadau'r cynllun cydraddoldeb
- monitro'r gwaith o gwblhau asesiadau o effaith ar gydraddoldeb
- rhoi camau ar waith ledled y sefydliad i lenwi bylchau strategol sy'n deillio o asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gweithgareddau dyletswyddau eraill, a
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau.

Cam 7: Defnyddio asesiadau o effaith ar gydraddoldeb i roi sylw dyledus i gydraddoldeb cyn ac yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar bolisïau

Mae angen i awdurdodau cyhoeddus roi systemau ar waith i sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn cael eu defnyddio'n rheolaidd wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu nid yn unig defnyddio'r canlyniadau i nodi opsiynau dewisol neu i gynllunio'r polisi, ond hefyd bod yr unigolyn sy'n penderfynu ar y polisi yn y pen draw yn ymwybodol o'r canfyddiadau yn llawn.

Enghraifft
Mae nifer o awdurdodau lleol wedi penderfynu bod rhaid i bob papur a pholisi sydd i'w cyflwyno i bwyllgorau cyngor neu'r cyngor llawn gynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb. Gwrthodir cymeradwyo'r rhai nad ydynt yn cynnwys asesiad.

Cam 8: Cyhoeddi

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol yn nodi'n benodol bod angen i unrhyw gynllun cydraddoldeb hiliol bennu'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau a'r ymgynghoriad. Mae'r dyletswyddau pobl anabl a rhyw yn argymell bod cyhoeddi'n ffordd dda o fagu hyder rhanddeiliaid yng nghadernid dull gweithredu'r awdurdod ym maes cydraddoldeb. Bydd mabwysiadu fformatau a systemau safonol ar gyfer dogfennu a chyhoeddi ledled y sefydliad yn cynorthwyo hyn.

Adran 4: Pwy ddylai gynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb, pryd y dylid ei gynnal a sut?

Mae'r tabl isod yn crynhoi agweddau allweddol y broses asesiad o effaith ar gydraddoldeb sydd angen eu dogfennu. Yna, ceir arweiniad manwl ar sut i gynnal yr asesiad. Gellir defnyddio'r tabl fel man cychwyn ar gyfer methodoleg neu dempled y sefydliad, neu fel arweiniad cyffredinol wrth ddatblygu dull gweithredu wedi'i deilwra.

Awdur/ golygydd/ asesydd	Dylai'r sawl a ddewisir fod yn gyfrifol am y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth, ac ati.
Partneriaid/ penderfynwyr/ gweithredwyr, ac ati	Dylid nodi pwy arall sydd angen cael eu cynnwys. Gall hyn fod yn benderfynwyr, staff rheng flaen sy'n gweithredu'r polisi, sefydliadau partner/rhiant, ac ati.
Dyddiad cychwyn	Dylid dechrau'r asesiad cyn datblygu'r polisi neu adeg cynllunio'r adolygiad, gan ei barhau gydol y gwaith o ddatblygu/adolygu'r polisi. O safbwynt polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid sicrhau bod modd gweithredu unrhyw newidiadau a nodir fel rhai angenrheidiol.
Dyddiad gorffen	Bydd angen i'r asesiad lywio penderfyniadau, felly dylai'r dyddiad ystyried hyn. Fodd bynnag, nid dyma ddiwedd y cylch asesu, gan fod gwaith adolygu yn gysylltiedig ag e hefyd (gweler isod).
Perthnasedd	Dylai hyn amlinellu perthnasedd y polisi, gwasanaeth, swyddogaeth ac ati i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a'r grwpiau cydraddoldeb (gan gofio ystyried pob un o'r dyletswyddau cyffredinol yn hytrach na'r ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu yn unig.) Dylai hyn gynnwys nodi pa agweddau ar bolisi, gwasanaeth, swyddogaeth, ac ati sy'n berthnasol i ddyletswyddau penodol. Os penderfynir nad yw'r polisi yn berthnasol, dylid nodi hynny yma a chynnwys y rhesymau a'r dystiolaeth. Mae'n bosibl y bydd y perthnasedd yn amlwg, ac os felly dylid mynd ati'n syth i gynnal asesiad a chasglu data manwl. Mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd angen ymarferiad sgrinio, a fydd yn defnyddio data i nodi perthnasedd.

Amcanion polisi	Bydd yn helpu i ofyn: ■ Pam mae angen y polisi? ■ Beth mae'r awdurdod yn gobeithio ei gyflawni wrth ei gyflwyno? ■ Sut fydd yr awdurdod yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben? Nid yw hyn yn hawdd bob amser ac mae'n debyg y bydd angen cynnal trafodaeth rhwng y rhai sy'n diffinio'r polisi a'r rhai sy'n ei weithredu.
Y dystiolaeth sydd ar gael	Nodwch y dystiolaeth sydd ar gael yma. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o brosesau cynnwys ac ymgynghori.
Bylchau mewn tystiolaeth	Nodwch y bylchau yn y dystiolaeth a sut y byddant yn cael eu llenwi.
Prosesau cynnwys ac ymgynghori	Pa brosesau cynnwys ac ymgynghori sydd wedi'u cynnal mewn perthynas â'r polisi hwn (neu bolisi neu swyddogaeth debyg), a beth yw'r canlyniadau? Pa brosesau cynnwys ac ymgynghori sydd eu hangen a sut y byddant yn cael eu cynnal? Nodwch y canlyniadau.
Beth yw'r effaith wirioneddol/ debygol?	Dylech ystyried effaith y polisi mewn perthynas â gofynion unigol pob un o'r tair dyletswydd sector cyhoeddus (pobl anabl, rhyw a hil) y mae'r polisi yn berthnasol iddynt. Gellir helpu'r asesiad drwy lunio set o gwestiynau allweddol i nodi effaith y polisi, wedi'u teilwra i'r maes sy'n cael ei ystyried. Dylai'r rhain gynnwys holl agweddau perthnasol y polisi a, lle bo hynny'n briodol, yr opsiynau polisi gwahanol. Yn gyffredinol, dylid nodi'r canlynol: ■ Pwy sy'n elwa? ■ Pwy na fydd yn elwa a pham? ■ Pwy ddylai elwa a pham nad yw hynny'n digwydd? Mae'r drafodaeth yn debygol o ddadlennu agweddau ychwanegol, felly dylai perchennog y polisi gael ei arwain gan y cwestiynau hyn yn hytrach na'i gyfyngu ganddynt. Dylech ddogfennu'r effaith wirioneddol neu debygol, ynghyd â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i egluro'r casgliad hwnnw.
Mynd i'r afael â'r effaith	Dylech nodi'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r effaith i fodloni'r dyletswyddau cyffredinol. Cofiwch ystyried pob un o'r dyletswyddau cyffredinol. Mae yna bedwar opsiwn posibl, a gall mwy nag un ohonynt fod yn berthnasol i'r polisi: 1. Dim newid mawr. 2. Addasu'r polisi. 3. Parhau â'r polisi. 4. Atal a dileu'r polisi. Dylid dogfennu'r amrywiaeth o opsiynau a nodi effeithiau pob un. Nodwch yr opsiwn/opsiynau a ddewiswyd a'r rhesymau am y dewis.

Monitro ac Adolygu	Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu effaith wirioneddol polisi newydd neu newidiadau i bolisi cyfredol unwaith y mae wedi cael ei weithredu.
Cynllun Gweithredu	Dylid datblygu, monitro ac adolygu cynllun gweithredu. Dylai'r broses hon gynnwys gwerthuso'r newidiadau, er mwyn mesur a ydynt wedi cael yr effaith a fwriadwyd, a gwerthuso'r canlyniadau. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys: ■ camau a nodwyd fel rhai angenrheidiol ■ manylion y rhai sy'n gyfrifol am roi'r camau ar waith ■ yr amserlen ar gyfer rhoi'r camau ar waith ■ amserlen a chamau i'w hadolygu; a ■ manylion sut y bydd effeithiau'r camau yn cael eu gwerthuso i fesur a yw canlyniadau disgwyliedig yn cael eu cyflawni yn ymarferol.
Gwneud penderfyn-iadau a rheoli	Yn cynnwys sêl bendith swyddog cyfrifol/tîm cydraddoldeb a hawliau dynol ac aelod o'r uwch dîm rheoli.

4.1 Pwy ddylai gynnal yr asesiadau o effaith ar gydraddoldeb?

Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb gael dealltwriaeth fanwl o'r polisi a'r maes polisi a bod mewn sefyllfa i sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud lle bo angen. Fel arfer, yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddatblygu'r polisi sy'n gwneud y gwaith, ac mae'n cael cymorth llawn gan yr uwch reolwyr.

Anaml iawn y bydd gan yr unigolion hyn arbenigedd helaeth ym maes cydraddoldeb, a dyna pam y mae hyfforddiant yng Ngham 5 Adran 3 mor bwysig. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried dulliau cymorth ar gyfer y rhai sy'n llunio polisïau, efallai drwy nodi cydweithiwr sy'n gallu cynnig ail farn a'u helpu i gamu yn ôl ac archwilio'r polisi yn wrthrychol.

Mae gan swyddogion cydraddoldebau gyfraniad pwysig i'w wneud, gan gynnwys sicrhau bod eu cydweithwyr yn cael eu hyfforddi'n briodol i gynnal asesiadau, helpu staff i wella asesiadau lle bo angen, monitro ansawdd asesiadau a gynhyrchir a chymeradwyo'r rhai sy'n ddigon cadarn. Dylent ond gynnal asesiadau ar gyfer polisïau y maent yn gyfrifol amdanynt.

Gellir prynu cymorth ac arbenigedd allanol i helpu i ddatblygu gallu i gynnal asesiadau, ond dylai'r rhai sy'n datblygu'r polisïau wneud y gwaith rheolaidd. Ni ddylai asesiadau gael eu cynnal yn rheolaidd gan ymgynghorwyr neu asiantaethau allanol.

4.2 Pryd y dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb?

Mae asesiad o effaith yn galluogi'r sawl sy'n llunio polisi i ystyried y polisi a phwyso a mesur sut y mae neu sut y bydd yn cael ei roi ar waith, gan ddod i benderfyniad ynglŷn â'r effaith debygol neu wirioneddol ar gydraddoldeb. Yr amser gorau i wneud hyn yw pan fydd y polisi yn cael ei gynllunio neu ei adolygu. Dylid dechrau'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb cyn datblygu'r polisi neu yn ystod camau cynllunio'r adolygiad, a'i barhau gydol y broses ddatblygu/adolygu'r polisi. O gael eu hymgorffori'n gywir yn y broses ddatblygu ac adolygu polisi, ni ddylai asesiadau arwain at weithgarwch ychwanegol diangen.

Dylid dechrau asesiadau o effaith ar gydraddoldeb cyn dechrau ysgrifennu

Anaml iawn y bydd llunio polisïau cyhoeddus yn broses syml, uniongyrchol ac mae'r Comisiwn yn cydnabod y dylai awdurdodau cyhoeddus unigol allu datblygu dull gweithredu sy'n bodloni eu gofynion. Beth bynnag yw natur y broses a ddefnyddir, mae'n hanfodol bwysig bod yr asesiad yn cychwyn ar ddechrau'r broses o lunio neu adolygu polisïau. Bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael sylw gydol y broses gynllunio neu adolygu polisi a chyn i benderfyniad gael ei wneud. Bydd hefyd yn nodi camau priodol i fonitro ac adolygu'r polisi. Nid ymarferiad a gynhelir unwaith mo asesiad o effaith ar gydraddoldeb; mae'n broses gylchol, barhaus.

Enghraifft: Mae'r Gymdeithas Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn defnyddio'r model canlynol i ddangos y cylch asesiad o effaith: Y Model Dull Parhaus



Rhybudd

Mae nifer o awdurdodau cyhoeddus wedi cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar ddiwedd y broses ddatblygu neu adolygu polisi. Gall hyn arwain at broblemau sylweddol. Mae'n bosibl mai ymarferiad papur yn unig fydd yr asesiad, gan arwain at anwybyddu problemau cydraddoldeb a datgan bod y polisi yn iawn. Mae yna berygl penodol y bydd hyn yn digwydd pan fydd penderfyniadau allweddol eisoes wedi'u gwneud neu pan fydd cynrychiolwyr gwleidyddol wedi gwneud datganiadau cyhoeddus, gan ei gwneud hi'n anodd iawn newid y polisi'n ddigonol. Gall cynnal asesiadau ar ddiwedd y broses arwain at sawl problem:

- Mae'n bosibl y bydd polisi yn parhau i gynnwys gweithgaredd a allai wahaniaethu neu greu effaith niweidiol, gan arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd.
- Hwyrach y bydd cyfle i hybu cydraddoldeb yn cael ei golli, gan olygu nad yw rhai grwpiau yn elwa ar y polisi i'r un graddau ag eraill.
- Nid yw'n bodloni gofynion cyfreithiol y dyletswyddau sector cyhoeddus, gan adael yr awdurdod yn agored i gamau cydymffurfio gan y Comisiwn neu heriau cyfreithiol gan eraill. **(6)**

4.3 Cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb drwy'r broses datblygu polisi – y pum cam allweddol

Mae'r Comisiwn wedi nodi pum cam allweddol yn y broses datblygu polisi y bydd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn berthnasol iddynt ac y dylid eu cynnwys yn y broses datblygu polisi ehangach:

Cam 1: Y cyfnod cyn datblygu polisi neu wrth gynllunio i adolygu polisi
1(i) Penderfynu a oes angen asesiad ar gyfer polisi neu wasanaeth
1(ii) Cwmpasu'r asesiad
Cam 2: Drafftio polisïau ac asesu effaith
Cam 3: Rhoi dulliau monitro, gwerthuso ac adolygu ar waith
Cam 4: Cymeradwyo a chyhoeddi'r polisi
Cam 5: Monitro ac adolygu'r cynllun gweithredu

Cam 1: Y cyfnod cyn datblygu polisi neu wrth gynllunio i adolygu polisi

Bydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod hwn a fydd yn penderfynu cwmpas y polisi ac yn diffinio ei amcanion, gan gynnwys a oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb. Os oes angen asesiad o'r fath, bydd y gwaith yn cychwyn.

6 Gweler er enghraifft R(C) v Secretary of State for Justice [2008] Yr Uchel Lys Sifil 882 lle cyfrannodd diffyg asesiad o effaith ar gydrddaoldeb hiliol at y penderfyniad i ddiddymu rheoliadau.

Fel y nodwyd yn gynharach, y nod yw ymgorffori asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn y broses o lunio ac adolygu polisïau. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod yn parhau i ystyried polisïau sydd eisoes yn bodoli, gall y camau canlynol helpu i benderfynu a oes angen asesiad ar gyfer polisi sydd eisoes yn bodoli nad oes angen ei adolygu eto.

Cam 1(i): Penderfynu a oes angen asesiad ar gyfer polisi neu wasanaeth

Mae hyn yn cynnwys:

- nodi polisi
- penderfynu a oes angen asesiad – perthnasedd, cymesuredd a sgrinio

Nodi polisi

Fel y nodwyd uchod, mae angen deall 'polisi' yn eang er mwyn cynnwys yr amrywiaeth ehangaf o swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt – popeth y mae'r awdurdod yn ei wneud yn y bôn. Mae'n cynnwys polisïau cyfredol a pholisïau newydd sy'n cael eu datblygu.

Mae'r tair dyletswydd sector cyhoeddus yn ymdrin â'r polisïau sydd eisoes yn bodoli mewn ffordd ychydig yn wahanol. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol yn nodi bod angen cynnal asesiad o bolisïau a swyddogaethau cyfredol ac arfaethedig er mwyn nodi'r rhai sydd fwyaf perthnasol i gydraddoldeb hiliol, bod polisïau arfaethedig yn cael eu hasesu ac yn destun ymgynghoriad, a bod polisïau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu monitro rhag ofn eu bod yn cael effaith niweidiol ar hybu cydraddoldeb hiliol. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn ymwneud â phobl anabl a rhyw yn ei gwneud hi'n ofynnol asesu polisïau sydd eisoes yn bodoli a pholisïau arfaethedig sy'n berthnasol i gydraddoldeb. Maent hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod gasglu gwybodaeth am effaith ei bolisïau ar gydraddoldeb.

Beth bynnag yw'r gwahaniaethau cyfreithiol, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod eu holl bolisïau cyfredol ac arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, yn unol â'u dyletswyddau cyffredinol. Nid yw hyn yn golygu bod angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi, ond mae'n golygu y bydd angen gwirio pob polisi o safbwynt ei berthnasedd a'i asesu os yw'n briodol.

Penderfynu a oes angen asesiad – perthnasedd, cymesuredd a sgrinio

Perthnasedd

Mae perthnasedd yn wahanol i effaith. Er enghraifft, o ystyried arwyddocâd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, bydd unrhyw newidiadau i gyflogau ac amodau gwaith yn berthnasol i gydraddoldeb rhywiol.

Awgrymiadau a chyngor
Mae rhai awdurdodau cyhoeddus wedi gwneud y camgymeriad o ddefnyddio'r posibilrwydd o effaith niweidiol neu o wahaniaethu er mwyn profi a oes angen cynnal asesiad o effaith ar gyfer polisi. Nid oes angen nodi effeithiau niweidiol neu o wahaniaethu yn ystod y cyfnod sgrinio. Gellid defnyddio ffactorau eraill i nodi perthnasedd, fel:

- i ba raddau y mae gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio neu ddim yn cael ei ddefnyddio gan grwpiau o bobl penodol
- a yw'r polisi yn ymwneud â swyddogaethau sydd wedi cael eu nodi fel rhai pwysig yn dilyn ymgynghoriad blaenorol, ac
- a oes gan grwpiau gwahanol anghenion neu brofiadau gwahanol yn y maes y mae'r polisi yn berthnasol iddo.

Polisïau i hybu cydraddoldeb
Mae'r Comisiwn yn credu y gall fod angen asesu effaith mentrau neu bolisïau newydd a gyflwynwyd yn benodol i hybu cydraddoldeb neu i fynd i'r afael ag effeithiau niweidiol polisïau cyfredol. Y rheswm am hyn yw bod y posibilrwydd o weithgarwch sy'n gwahaniaethu, effaith niweidiol neu golli cyfle i hybu cydraddoldeb yn bodoli o hyd. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth ystyried sawl sail.

Enghraifft
Mae polisi ar fynd i'r afael â thrais sy'n seiliedig ar ryw yn cael ei adolygu gan awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y polisi yn cyflawni ei amcanion o safbwynt cydraddoldeb ac yn gallu diwallu anghenion y grwpiau perthnasol, er enghraifft, aelodau o gymunedau pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig neu bobl anabl sydd wedi dioddef trais yn seiliedig ar ryw.

Cymesuredd

Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus flaenoriaethu fel eu bod yn gallu canolbwyntio eu hymdrechion a defnyddio eu hadnoddau yn effeithiol. Nid oes llawer o ddiben cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau sydd yn amlwg yn amherthnasol. Yn yr un modd, os yw awdurdod cyhoeddus yn hepgor polisi pwysig ar ôl methu â nodi ei berthnasedd, mae'n gadael ei hun yn agored i her gyfreithiol ac i weithredu penderfyniadau polisi gwael.

Gall ystyried polisïau fel rhai sydd â pherthnasedd uchel, canolig neu isel helpu'r sefyllfa. Mae'n rhaid mynd ati bob amser i asesu effaith polisïau sydd â pherthnasedd uchel, fel rhaglenni sy'n rhoi grantiau, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau (gan gynnwys dileu gwasanaethau), polisïau derbyn a gwahardd ysgolion, polisïau recriwtio neu gyflogau, a pholisïau sy'n pennu safonau ansawdd i eraill. Yn y pegwn arall, ceir polisïau nad ydynt yn berthnasol i gydraddoldeb, fel polisi ar bryd i wirio tymheredd oergelloedd mewn ysbyty **(7)**. Mae'n debyg y bydd ystyried polisïau o'r fath i benderfynu a ydynt yn berthnasol i gydraddoldeb, a chofnodi'r rheswm pam nad ydynt yn berthnasol, yn ddigon i ddangos bod sylw dyledus wedi cael ei roi.

Rhybudd
Mae'n bwysig cofio y bydd y dyletswyddau cyffredinol yn berthnasol i bolisi, hyd yn oed os yw wedi cael ei 'sgrinio allan'. Mae sgrinio allan polisi perthnasol yn arwain at fwy o her gyfreithiol i awdurdod cyhoeddus gan nad yw'n gallu defnyddio proses yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol. Yn bwysicach na hynny, mae hefyd yn golygu y gallai cyfleoedd i hybu cydraddoldeb fod wedi eu colli.

Enghraifft: Elias (8)
Yn achos Elias, heriwyd polisi ar gymhwysedd o dan gynllun iawndal anstatudol ar gyfer y rhai a garcharwyd gan y Siapaneaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar y sail ei fod yn torri dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r farn nad oedd unrhyw fater gwahaniaethu hiliol i'w ystyried, ni chafodd y polisi ei gynnwys yn y cynllun cydraddoldeb hiliol ac ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o effaith. Oherwydd hynny, rhoddwyd polisi a oedd yn gwahaniaethu ar waith, ac fe'i heriwyd yn llwyddiannus yn y llys yn ddiweddarach.

7 Seiliwyd hyn ar enghraifft go iawn a ddaeth i sylw'r Comisiwn.
8 R (Elias) v Secretary of State for Defence [2006] yr Uchel Lys Sif 1293 1 WLR 3213.

Os yw awdurdod cyhoeddus yn penderfynu nad yw polisi yn berthnasol, dylai gofnodi ac egluro'r penderfyniad a sicrhau ei fod yn cael ei wirio gan y systemau sicrhau ansawdd.

Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu ar bolisïau o bwysigrwydd canolig neu bolisïau lle mae'r perthnasedd yn aneglur. Mewn llawer o'r sefyllfaoedd hyn, mae llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi penderfynu defnyddio proses sgrinio.

Sgrinio

Ymarferiad byr, cryno yw sgrinio sy'n penderfynu ar berthnasedd. Unwaith y penderfynir bod angen cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb, gellir atal y gwaith sgrinio a dechrau'r asesiad, pa bynnag gyfnod y mae'r gwaith sgrinio wedi'i gyrraedd. O safbwynt penderfyniadau anoddach, gall sgrinio ddechrau edrych fel asesiad o effaith ar gydraddoldeb, wrth i wybodaeth a thystiolaeth fanwl gael eu casglu a'u dadansoddi. Os yw hyn yn digwydd, dylai awdurdodau cyhoeddus symud yn syth i asesiad. Os nad yw hyn yn digwydd, bydd angen cofnodi'r gwaith hwn er mwyn osgoi'r angen i'w ail-adrodd os yw asesiad yn cael ei gynnal (fel sy'n debygol).

Gall y cwestiynau canlynol helpu i nodi perthnasedd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, gan y gall yr hyn sy'n gwneud polisi yn berthnasol amrywio rhwng ysgolion ac adrannau'r llywodraeth, ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, ac ati. Dylai methodoleg neu dempled yr asesiad ystyried pa gwestiynau sy'n gallu nodi perthnasedd orau mewn cyd-destun penodol.

Cwestiynau posibl

- A yw'r polisi yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr cyflogedig neu'r gymuned ehangach? Cofiwch – mae hyn yn ymwneud â llawer mwy na dim ond niferoedd. Mae'r posibilrwydd o effeithio ar nifer fach o bobl yn sylweddol yr un mor bwysig â'r posibilrwydd o effeithio ar lawer o bobl.
- A yw'n bolisi pwysig sy'n cael effaith sylweddol ar sut y mae swyddogaethau yn cael eu darparu?
- A fydd yn cael effaith sylweddol ar sut y mae sefydliadau eraill yn gweithredu? (er enghraifft, strategaeth llywodraeth ganolog, meini prawf arolygu, meini prawf ariannu, ac ati).
- A yw'n cynnwys ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau?
- A yw'n gysylltiedig â maes sydd ag anghydraddoldebau hysbys (er enghraifft, mynediad pobl anabl i drafnidiaeth gyhoeddus, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, bwlio hiliol neu homoffobig mewn ysgolion, cyrhaeddiad addysgiadol Sipsiwn a Theithwyr, ac ati).

Os oes awdurdod cyhoeddus wedi ymgorffori cydraddoldeb yn ei brosesau casglu data, fel yr amlinellwyd yn Adran 3, dylai'r wybodaeth sydd ei hangen i ateb y cwestiynau hyn fod ar gael ac yn hygyrch.

Polisïau lle mai dim ond un neu ddwy o'r dyletswyddau sy'n berthnasol

Gall awdurdod cyhoeddus ddewis sgrinio polisïau yn erbyn pob un o'r dyletswyddau, er mwyn gallu canolbwyntio adnoddau ar y rhai mwyaf perthnasol.

Enghraifft
Drwy ddefnyddio proses sgrinio, gall Ymddiriedolaeth y GIG benderfynu nad yw'r broses o osod ei system gyfrifiadurol newydd yn berthnasol i'r dyletswyddau cydraddoldeb ar sail rhyw a hil, ond ei bod yn berthnasol i'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl o safbwynt hygyrchedd. O ganlyniad, byddai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb sy'n dilyn ond yn canolbwyntio ar elfennau'r polisi sy'n berthnasol i'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl.

Caiff y penderfyniad a'r rhesymau drosto eu cofnodi, eu gwirio gan dîm cydraddoldeb Ymddiriedolaeth y GIG a'u cymeradwyo gan yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am gyfathrebu mewnol ac allanol.

Effaith a nodwyd yn ystod sgrinio

Er bod perthnasedd yn wahanol i effaith, yn aml mae'n bosibl defnyddio'r un data a thystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi perthnasedd i ddangos effaith hefyd. Yn hytrach nag anwybyddu hyn yn ystod y gwaith sgrinio, mewn achosion o'r fath gellid addasu'r polisi a rhoi proses fonitro ar waith i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd os ceir effaith na chafodd ei rhagweld. Dim ond os yw'r awdurdod cyhoeddus yn hollol hyderus na fydd unrhyw effaith arall yn cael ei nodi y dylid gwneud hyn.

Penderfyniadau i beidio asesu effaith

Rhaid cofio y bydd angen dogfennu'n llawn unrhyw benderfyniad i beidio asesu effaith neu asesu yn erbyn rhai o'r dyletswyddau yn unig, a nodi'r rhesymau a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyrraedd y casgliad hwn. Bydd angen gwirio hyn drwy ddefnyddio'r systemau sicrhau ansawdd yn Adran 3. Mae datganiad syml yn nodi diffyg perthnasedd yn annigonol, felly hefyd ddatganiad yn nodi diffyg data neu dystiolaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle nad yw'r rhai sy'n llunio'r polisi yn gyfarwydd ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb neu faterion cydraddoldeb, gan eu bod yn debygol o fethu'n anfwriadol broblemau posibl sy'n gallu dangos perthnasedd, gan sgrinio allan polisi perthnasol yn ddamweiniol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth.

Cofiwch: cofnodwch, eglurwch, gwiriwch

Cyhoeddi

Dylid cyhoeddi penderfyniadau i beidio â chynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb er mwyn bod yn agored a thryloyw, ac i sicrhau bod pobl yn deall y penderfyniadau a wnaed. Gellir gwneud hyn fel rhan o gyhoeddi'r polisi drafft os oes ymgynghoriad yn ei gylch, neu fel rhan o adroddiad blynyddol y sefydliad ar weithredu eu cynllun cydraddoldeb. Bydd rhoi'r wybodaeth ar y wefan yn ddigonol cyn belled â'i bod yn hygyrch.

Cam 1(ii): Cwmpasu'r asesiad

Mae'r cam hwn yn rhoi cyfle i awdurdodau cyhoeddus roi systemau sylfaenol ar waith fel bod modd cwblhau camau diweddarach yr asesiad heb oedi na ffwdan ddiangen. Bydd y systemau a amlinellwyd yn Adran 3, fel casglu data a gweithgareddau cyfranogi, yn cynorthwyo hyn. Yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth y rhai sy'n llunio'r polisi yn unig, yn ystod cyfnod cynnar yr asesiad bydd yn bwysig dwyn ynghyd yr holl bobl sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r polisi. Mae'n debyg y bydd hyn eisoes yn digwydd fel rhan o'r gwaith cynllunio i ddatblygu'r polisi ymlaen llaw neu adolygu'r polisi ac y gellir cynnwys agweddau ar gydraddoldeb yn y drafodaeth hon.

Lle mae awdurdod cyhoeddus wedi rhoi trefniadau partneriaeth ar waith (fel y rhai a nodir yn Adran 3) neu os yw'n asiantaeth weithredol, dyma'r amser i ddwyn ynghyd y bobl berthnasol o sefydliadau partner neu'r adran riant/asiantaeth weithredol.

Cwmpasu'r asesiad

Yn ystod y cyfnod hwn dylid sefydlu'r canlynol:

a. Beth yw amcanion y polisi, sut maent yn berthnasol i gydraddoldeb a sut y gallant hybu cydraddoldeb yn well?

b. Pa agweddau ar y polisi sy'n arbennig o berthnasol i gydraddoldeb?

c. Pa ddyletswyddau cyffredinol a pha grwpiau a amddiffynnir y mae'r polisi yn berthnasol iddynt?

d. Pa dystiolaeth sydd eisoes ar gael a fydd yn helpu i ddatblygu'r polisi a'r asesiad?

e. Pa fylchau o safbwynt data ac ymchwil sydd angen eu llenwi?

f. Pa gymunedau a grwpiau fydd angen cyfrannu at ddatblygu'r polisi?

a. Beth yw amcanion y polisi, sut maent yn berthnasol i gydraddoldeb a sut gallant hybu cydraddoldeb yn well?

Mae'n hanfodol bwysig dechrau'r broses asesu gyda dealltwriaeth glir o'r polisi sydd i'w ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys: diben y polisi arfaethedig; cyd-destun y polisi; pwy fydd yn elwa arno, a'r canlyniadau y gobeithir eu sicrhau. Bydd yn helpu i ofyn:

- Pam y mae angen y polisi?
- Beth mae'r awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwy ei gyflwyno?
- Sut y gellir sicrhau y bydd yn llwyddo yn ôl y bwriad?

Wrth ystyried pwy fydd yn elwa arno, mae'n bwysig ystyried yr effaith bosibl ar bawb sy'n cael eu heffeithio, hyd yn oed lle nad yw hyn yn amlwg yn syth.

Hyd yn oed yn ystod y cam cychwynnol hwn, mae angen dechrau ystyried effeithiau posibl a sut y gellid cyflawni'r dyletswyddau yn well, ac efallai ystyried ehangu neu ddiwygio amcanion y polisi eu hunain.

Enghraifft
Mae awdurdod cyhoeddus yn adolygu ei bolisi ar hyfforddiant a datblygiad personol. Diben y polisi yw sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol. Y rheswm am yr adolygiad yw'r ffaith fod y sefydliad yn ymgymryd â meysydd gwaith newydd, ond wrth ystyried cyfleoedd i hybu cydraddoldeb, mae'n penderfynu y gellid mynd i'r afael â'r prinder menywod ymysg uwch reolwyr yn y sefydliad drwy roi hyfforddiant wedi'i dargedu i reolwyr fel un o amcanion penodol y polisi.

b. Pa agweddau ar y polisi sy'n arbennig o berthnasol i gydraddoldeb?

Yn ystod y camau cyntaf, dylai awdurdodau cyhoeddus nodi pa agweddau allweddol ar bolisi sy'n berthnasol i gydraddoldeb. Nid yw hyn yn golygu y dylid hepgor agweddau eraill o'r asesiad, ond bydd yn helpu i ganolbwyntio sylw ar y meysydd pwysicaf.

Bydd angen ystyried perthynas polisïau â'i gilydd hefyd. Er enghraifft, os oes polisi hybu yn cael ei asesu, mae'n bosibl y bydd angen ystyried effeithiau polisïau ar hyfforddiant a datblygiad hefyd er mwyn cael darlun llawn o unrhyw rwystrau neu gyfleoedd.

Enghraifft
Mae awdurdod yn cynnig cynlluniau pensiwn gwahanol ar gyfer categorïau staff gwahanol. Os yw'n ystyried newidiadau i un cynllun, bydd angen ystyried effaith wirioneddol neu bosibl cynlluniau eraill ar gydraddoldeb yn y gweithle yn gyffredinol (nid y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y newid yn unig) er mwyn sicrhau nad yw anghydraddoldebau rhwng gwahanol gategorïau o weithwyr yn parhau neu'n gwaethygu.

Lle mae'r effaith yn mynd y tu hwnt i'r maes y mae'r unigolyn sy'n cynnal yr asesiad yn gyfrifol amdano, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am feysydd eraill gael eu cynnwys yn y broses cyn gynted â phosibl.

Enghraifft
Gall awdurdod lleol sy'n datblygu strategaeth dai newydd nodi'r meysydd canlynol fel rhai sy'n arbennig o berthnasol i gydraddoldeb:

- defnydd cyfredol ac arfaethedig o wasanaethau tai
- cyfraddau bodlonrwydd a niferoedd a natur cwynion gan grwpiau a chymunedau gwahanol
- darpariaeth tai â chymorth
- cyfraddau ac achosion digartrefedd
- gosodiadau sy'n seiliedig ar ddewis
- Budd-dal Tai
- caffael gwasanaethau cymdeithas tai
- argaeledd a rheolaeth tai wedi'u haddasu
- hygyrchedd gwybodaeth swyddfa a'r rhyngrwyd
- darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig
- hyfforddi staff

c. Pa ddyletswyddau cyffredinol a pha grwpiau a amddiffynnir y mae'r polisi yn berthnasol iddynt?

Os yw'r polisi wedi cael ei sgrinio, bydd gan y sawl sy'n sgrinio'r polisi rywfaint o wybodaeth am ba ddyletswyddau y mae'r polisi yn fwyaf perthnasol iddynt. Os nad yw'r polisi wedi cael ei sgrinio, dylid mynd ati yn y lle cyntaf o leiaf i gynnal asesiad yn erbyn pob un o'r tair dyletswydd (a sail) a'r meysydd cydraddoldeb ehangach, yn enwedig os yw'r polisi wedi'i bennu'n un perthnasol iawn. Dylid ystyried amrywiaeth y tu mewn i grwpiau yn ogystal ag amrywiaeth rhyngddynt. Os penderfynir nad oes angen asesiad yn erbyn rhai o'r dyletswyddau, dylid cofnodi ac egluro hyn a rhoi systemau sicrhau ansawdd y sefydliad ar waith.

d. Pa dystiolaeth sydd eisoes ar gael a fydd yn helpu i ddatblygu'r polisi a'r asesiad?

Mae'n bwysig casglu cymaint o ddata a gwybodaeth gyfoes a dibynadwy â phosibl am y grwpiau gwahanol y mae'r polisi arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Dylai'r systemau a amlinellwyd yn Adran 3 ddarparu cronfa ddata berthnasol, ond hwyrach y bydd angen ychwanegu at hon wrth ystyried polisïau penodol.

Bydd y data a'r wybodaeth sydd eu hangen yn dibynnu ar natur y polisi arfaethedig, ond mae'n debygol o gynnwys llawer o'r eitemau a restrir isod:

- Data monitro cydraddoldeb ar lefel gwasanaeth (wedi'u dadgyfuno ar sail anabledd, rhyw, hil, oedran a, lle bo hynny'n berthnasol, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gredo) ar gyfer y gwasanaethau sy'n cael eu hasesu neu'r rhai sy'n debyg.
- Cymariaethau â pholisïau tebyg mewn adrannau neu awdurdodau eraill.

- Dadansoddi cofnodion ymholiadau neu gwynion gan y cyhoedd am wasanaethau neu bolisïau.
- Argymhellion adroddiadau ac adolygiadau arolygu ac archwilio.
- Gwybodaeth am y boblogaeth neu'r gymuned leol, gan gynnwys canfyddiadau cyfrifiadau.
- Canfyddiadau gwaith ymchwil diweddar o amrywiaeth o ffynonellau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Canlyniadau gweithgareddau cyfranogi, ymgynghoriadau neu arolygon diweddar.
- Gwybodaeth gan grwpiau ac asiantaethau sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â grwpiau penodol yn y cymunedau y mae'r awdurdod yn eu gwasanaethu; er enghraifft, astudiaethau ansoddol gan undebau llafur a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Mae'n debyg mai data lefel gwasanaeth fydd y data pwysicaf a mwyaf priodol. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u profiadau a chanlyniadau.

e. Pa fylchau o safbwynt data ac ymchwil sydd angen eu llenwi?

Ar ôl rhoi'r broses gasglu a dadansoddi data a amlinellwyd yn Adran 3 ar waith, dylai'r awdurdod allu cael mynediad i'r data sydd ar gael. Bydd hyn wedi helpu i nodi'r bylchau o ran data hefyd, a bydd y bylchau hynny'n dechrau cael eu llenwi nawr. Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn anodd o hyd i rai awdurdodau cyhoeddus ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. Ni ddylid byth defnyddio hyn fel rheswm dros beidio gweithredu.

Weithiau mae ehangder problem i rai grwpiau eisoes yn hysbys, heb fod angen gwaith ymchwil helaeth i gadarnhau hyn yn fanwl. O dan amgylchiadau o'r fath, dylid canolbwyntio ar weithredu – ar yr hyn sydd angen ei wneud i hybu cydraddoldeb neu fynd i'r afael â gwahaniaethu.

Os oes prinder gwybodaeth o hyd i asesu'r polisi yn briodol, bydd angen cymryd camau perthnasol a chymesur i lenwi'r bylchau data. Mae enghreifftiau'n cynnwys astudiaethau neu arolygon a gynhelir unwaith, neu gynnal ymarferion ymgynghori anffurfiol i ychwanegu at y data ystadegol ac ansoddol sydd ar gael.

Os nad oes modd gwneud hyn mewn pryd i lywio'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb cyfredol, bydd angen cynnwys pwyntiau gweithredu penodol yng nghynllun gweithredu'r asesiad, gan ganolbwyntio ar fonitro'r effaith wirioneddol a'r adolygiad o'r polisi.

f. Pa gymunedau a grwpiau fydd angen cyfrannu at ddatblygu'r polisi?

Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gallu deillio o brosesau cynnwys ac ymgynghori yn rhan hanfodol o asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried data o weithgareddau ymgynghori, cynnwys ac ymchwil diweddar yn y lle cyntaf. Gallai data o'r fath ymwneud â pholisi cysylltiedig diweddar, strategaeth y mae'r polisi yn ei gweithredu'n rhannol neu asesiad o effaith ar gydraddoldeb diweddar a gynhaliwyd gan yr un adran. Yn wir, gall hyn hefyd helpu i fagu hyder ymysg cymunedau, sy'n gallu gweld bod eu sylwadau wedi arwain at gamau gweithredu. Mae gofyn yr un cwestiynau dro ar ôl tro heb weithredu arnynt yn achos cyffredin o anfodlonrwydd gyda phrosesau ymgynghori a chynnwys.

Enghraifft
Os yw awdurdod lleol wedi cyhoeddi strategaeth gymunedol newydd yn ddiweddar, dylai adolygu'r wybodaeth at ddibenion datblygu ei strategaeth dai newydd. Cwestiwn pwysig i'w ofyn ar y cychwyn yw: beth sydd eisoes yn hysbys?

Enghraifft
Cynhaliodd Sportscotland asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Out There – datganiad polisi'r sefydliad ar chwaraeon a hamdden awyr agored. Defnyddir y polisi fel sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â phob camp awyr agored ledled yr Alban. Mae'n pennu'r fframwaith y mae angen i asiantaethau partner ei ystyried wrth gynllunio, datblygu a gweithredu eu cynlluniau a'u cynlluniau gweithredu eu hunain.

Aeth Sportscotland ati i ymgynghori'n helaeth ar y polisi, gan fanteisio ar wybodaeth a oedd eisoes ar gael i'r sefydliad. Roedd gwaith ymchwil eisoes wedi cael ei gynnal i'r rhwystrau i gyfranogiad mewn meysydd chwaraeon eraill, ac roedd y cynllun cydraddoldeb sengl eisoes wedi dwyn llawer o'r wybodaeth hon ynghyd. Roedd hefyd yn gallu manteisio ar waith a gynhaliwyd gan Rwydwaith Hamdden Cefn Gwlad.

O ganlyniad i'r asesiad, ychwanegwyd egwyddor arweiniol newydd at Out There, yn nodi'n glir y dylai pob sector o'r boblogaeth fedru cymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored a chael eu hannog i gyfranogi. Ychwanegwyd datganiadau polisi allweddol at adrannau perthnasol, yn amlinellu'r angen i ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd chwaraeon yn agos at gartrefi pobl. Diwygiwyd y bennod ar fynediad awyr agored er mwyn hybu darpariaeth ar gyfer pobl anabl wrth weithredu hawliau mynediad, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a theuluoedd gyda choetsys babanod. Diwygiwyd y polisi codi tâl am ddefnyddio'r awyr agored at ddibenion chwaraeon er mwyn annog pennu tâl ar lefel na fyddai'n eithrio rhai grwpiau ar sail cost.

Mae adran o'r enw 'Cynhwysiant' wedi cael ei chreu sy'n amlinellu'r angen i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored sy'n wynebu rhai grwpiau. Nodwyd hefyd pa mor bwysig yw ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu heithrio er mwyn deall y problemau a'r rhwystrau a chydweithio â nhw i ddod o hyd i atebion.

Y dull mwyaf effeithiol yn aml yw ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb mewn prosesau ymgynghori a chynnwys a gynllunnir, gan sicrhau ei fod yn cynnwys pobl o'r grwpiau cydraddoldeb gwahanol.

Mae cynllunio ar gyfer hyn o'r cychwyn yn galluogi pobl i wneud cyfraniad go iawn, mae'n llywio cynllun y polisi ac yn defnyddio'r dull cyfranogiad mwyaf effeithiol ac effeithlon. Fel sy'n wir am bopeth, mae cymesuredd yn egwyddor allweddol. Bydd angen llawer mwy o ymdrech ac adnoddau i sicrhau proses ymgynghori a chynnwys effeithiol ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb o bolisi neu strategaeth fawr newydd o gymharu ag asesiad syml o bolisi arferol.

Cam 2: Drafftio polisïau ac asesu effaith

Asesu'r effaith debygol a chyfleoedd i hybu cydraddoldeb

Mae'r cam hwn yn ganolog i'r broses asesiad o effaith. Mae llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gofyn cwestiwn syml – beth fydd yn digwydd os ydym ni'n gwneud pethau fel hyn? Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn ychwanegu dimensiwn arall at y cwestiwn hwn, gan ofyn i'r rhai sy'n llunio polisïau feddwl am beth fydd yn digwydd i grwpiau penodol o bobl.

Awgrymiadau a chyngor

Mae'n bwysig cofio bob amser nad yw asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn ymwneud â dileu effeithiau negyddol posibl yn unig, ond eu bod hefyd yn gyfle i nodi dulliau hybu cyfle cyfartal a gwella mynediad i i wasanaethau cyhoeddus.

Cydweithio

Y ffordd symlaf o gwblhau y rhan hon o'r asesiad yw dwyn ynghyd yr holl bobl sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi. Os datblygwyd dull neu dempled asesiad o effaith ar gydraddoldeb, fel yr amlinellwyd uchod, bydd yn darparu strwythur ar gyfer yr asesiad ac yn sicrhau bod yr holl gwestiynau cywir yn cael eu gofyn. Dylai hyn arwain at drafodaeth agored, onest, gadarn a thrwyadl ar effaith bosibl y polisi.

Defnyddio'r data i nodi'r effaith

Cofiwch: Nid yw diffyg data yn rheswm digonol dros ddod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith.

Mae angen crynhoi'r holl wybodaeth, data a thystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn a'u cymhwyso i'r polisi wrth iddo ddatblygu, gan benderfynu ar yr effaith debygol bob cam o'r ffordd a nodi a oes angen newidiadau. Nid yw'r broses ysgrifennu polisïau yn un uniongyrchol ac mae'n debyg y bydd pob cam yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn hollol ddilys, a gall cydnabod hyn helpu i osgoi agwedd ticio bocsys tuag at asesu.

Enghraifft

Mae llyfr gwaith asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn cynnwys dolenni uniongyrchol o'r ffurflen i seiliau tystiolaeth ac i adrannau ar y materion perthnasol. Trwy edrych ar y data hwn ar anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, mae cydweithwyr yn gallu nodi'r meysydd hynny a allai fanteisio ar eu polisi i wella cydraddoldeb.

Nid yw'n dderbyniol o dan unrhyw amgylchiadau nodi'n syml y bydd polisi yn fuddiol i bob defnyddiwr gwasanaeth, ac felly y bydd y grwpiau cydraddoldeb yn elwa'n awtomatig. Mae'n rhaid i'r gwaith dadansoddi fod yn well na hynny, gan ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu wahaniaethau a ddaeth i'r amlwg. Bydd angen camau penodol ym maes cydraddoldeb weithiau er mwyn mynd i'r afael ag anfantais sydd eisoes yn bodoli, diwallu anghenion gwahanol neu ganiatáu gwahaniaeth ac amrywiaeth.

Gall methu â chydnabod hyn olygu bod anghydraddoldebau rhwng neu o fewn cymunedau a grwpiau yn parhau.

Enghraifft
Diolch i asesiad o effaith ar gydraddoldeb a gwaith monitro arferol, nodwyd nad oedd polisi lleoliadau y tu allan i'r fwrdeistref awdurdod lleol wedi cael ei ddiwygio ers dros 15 mlynedd a'i fod yn anfon nifer sylweddol o blant o leiafrifoedd ethnig i rannau o'r wlad ble mai nhw oedd yr unig blant o leiafrif ethnig yn aml.

O ganlyniad, diwygiodd yr awdurdod ei bolisi Plant sy'n Derbyn Gofal, gan roi trefniadau ar waith i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer plant o leiafrifoedd ethnig sy'n derbyn gofal.

Ar y llaw arall, bydd angen ystyried polisïau sydd â'r nod o gynyddu cyfle cyfartal ar gyfer rhai grwpiau (er enghraifft, drwy fanteisio ar ddarpariaethau camau cadarnhaol Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975) er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n llunio'r polisi yn hyderus ei fod yn gyfreithlon ac y bydd yn llwyddo i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau hefyd i ymateb i unrhyw ddicter neu ganfyddiad o driniaeth fwy ffafriol ymysg cymunedau a grwpiau eraill.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw defnyddio'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod yna dystiolaeth glir o'r angen dan sylw a bod rhaid wrth y camau gweithredu i ddiwallu'r angen hwn. Hwyrach y gellir ystyried sut i egluro mesurau o'r fath i'r cyhoedd fel rhan o'r gwaith o gynllunio'r polisi ac o gynllun gweithredu'r asesiad.

Er mwyn canolbwyntio ar yr asesiad a'i gefnogi, bydd yn helpu i nodi set o gwestiynau allweddol i'w gofyn. Mae angen i'r rhain nodi effaith y polisi a dylent gael eu teilwra i'r maes sy'n cael ei ystyried. Dylent gyfeirio at holl agweddau perthnasol y polisi ac at yr opsiynau polisi gwahanol lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r drafodaeth yn debygol o ddatgelu agweddau ychwanegol, felly dylai perchennog y polisi gael ei arwain ond nid ei gyfyngu gan y cwestiynau hyn.

Yn gyffredinol, dylid nodi'r canlynol:

- Pwy sy'n elwa?
- Pwy na fydd yn elwa a pham?
- Pwy ddylai elwa a pham nad yw hynny'n digwydd?

Bydd y cwestiynau perthnasol yn amlwg ar gyfer rhai polisïau. Er enghraifft, wrth adolygu polisi recriwtio ar gyfer cydraddoldeb i bobl anabl, bydd awdurdod cyhoeddus yn awyddus i ofyn iddo ei hun faint o bobl anabl a ymgeisiodd, faint a benodwyd, a beth oedd eu graddfeydd a'u cyflogau. Mae'n bosibl y byddant am ehangu'r asesiad i ystyried cyfraddau cadw a dyrchafu staff.

Enghraifft
Nododd asesiad o effaith ar gydraddoldeb hiliol y Brifysgol Agored o'i strategaeth comisiynu darllediadau fod y cwestiynau canlynol yn ganolog i ddeall yr effaith ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig:

1. A ydym yn cynhyrchu testun ar raglenni sy'n debygol o ddenu cynulleidfa amrywiol?
2. A yw'r rhaglenni yn cyrraedd cynulleidfa amrywiol?
3. A ydym yn fodlon bod contractwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith?
4. A oes digon o amrywiaeth o ran cyflwynwyr a chyfranogwyr rhaglenni?
5. Pa gyfran o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n cofrestru ar gyfer cwrs ar ôl gweld darllediad?

Bydd yn haws nodi'r effeithiau ar bolisïau sydd eisoes yn bodoli. Bydd angen darogan yr effeithiau ar bolisïau newydd. Nid proses ddyfalu mohoni, ond asesiad strwythuredig yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n caniatáu dull trylwyr ac ymgynghorol o ddeall effaith ar bolisi.

Bydd angen i'r dadansoddiad fod yn ddigon cadarn fel bod modd ystyried effeithiau'r dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u nodi fel rhai perthnasol. Mae hyn yn cynnwys mynd ati'n systematig i werthuso'r polisi arfaethedig yn erbyn yr holl wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd, a gwneud penderfyniad rhesymol ynglŷn ag a oes neu a fydd gan y polisi oblygiadau cadarnhaol neu negyddol arwyddocaol ar gyfer grŵp/grwpiau neu gymunedau penodol.

Wrth wneud hyn, bydd angen i'r sawl sy'n llunio/adolygu'r polisi gael ei arwain gan ofynion y dyletswyddau cyffredinol. Wrth ystyried y ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, mae'n bosibl y bydd y pwyslais ar benderfynu a yw'r effaith yn gwahaniaethu, a hwyrach y bydd yn berthnasol ystyried a yw'r polisi yn achosi unrhyw anghydraddoldeb a nodwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd achos yr anghydraddoldeb mor berthnasol wrth ystyried y ddyletswydd i hybu cydraddoldeb – mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, beth bynnag yw ei darddiad.

Enghraifft
Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant anabl, plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a phlant sydd, neu y credir eu bod, yn hoyw, yn lesbiaidd, yn ddeurywiol neu'n drawsrywiol, yn arbennig o agored i fwlio. Felly, bydd ysgol neu awdurdod lleol sy'n ystyried eu polisi gwrth-fwlio yn awyddus i sicrhau bod y polisi yn ymdrin â'r materion hyn ac efallai byddant am gynnwys y dysgwyr hyn a'u teuluoedd wrth lunio'r polisi.

Bydd angen i'r cwestiynau a ddewisir sicrhau bod pob un o'r dyletswyddau cyffredinol perthnasol yn cael sylw, yn ogystal â phob un o'r agweddau polisi perthnasol, fel y nodwyd yng Ngham 1 uchod. Yn gyffredinol, dylai'r cwestiynau a ddewisir gynnwys yr ystyriaethau canlynol:

- Beth yw prif ganfyddiadau eich prosesau cynnwys ac ymgynghori, ac a ydynt yn amlygu problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw?
- A allai canlyniadau'r polisi amrywio yn ôl grŵp ethnig, rhyw, oedran, anabledd, crefydd neu gredo, neu gyfeiriadedd rhywiol pobl? Er enghraifft, oherwydd bod ganddynt anghenion, profiadau, pryderon neu flaenoriaethau penodol mewn perthynas â materion perthnasol y polisi neu'r ymarfer?
- A oes tystiolaeth o gyfranogiad neu ddefnydd uwch neu is gan wahanol grwpiau?
- A allai'r polisi neu'r ymarfer effeithio ar grwpiau gwahanol yn anghymesur? Er enghraifft, a oes mwy o fenywod na dynion yn cael eu heffeithio, mwy o bobl anabl, ac ati?
- Pe bai un grŵp yn cael ei effeithio mwy, a yw hynny'n briodol ac yn gyson ag amcan y polisi?
- A allai'r polisi neu'r ymarfer roi pobl o un gymuned neu grŵp neu fwy o dan anfantais? Yn ogystal ag ystyried canlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer, mae'n rhaid ystyried unrhyw ganlyniadau a rhwystrau nas bwriadwyd a allai olygu eu bod yn aneffeithiol ar gyfer rhai cymunedau neu grwpiau.
- A oes unrhyw dystiolaeth y gallai unrhyw ran o'r polisi arfaethedig wahaniaethu'n anghyfreithlon, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn pobl o rai cymunedau neu grwpiau?

- A yw'r polisi yn cynnwys camau cadarnhaol cyfreithiol neu ddulliau eraill i ymdrin ag anghenion penodol y mae angen eu diogelu?
- A yw'r polisi yn methu cyfleoedd posibl i hybu cydraddoldeb a sicrhau canlyniadau teg i gymunedau a grwpiau gwahanol?
- A oes cyfle i hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl a chysylltiadau da rhwng grwpiau a chymunedau gwahanol?
- A yw'r polisi yn effeithio ar gyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus?
- Os felly, a ellir hybu cyfranogiad gan bobl anabl ac a yw grwpiau eraill yn cael eu tangynrychioli?
- A yw'r polisi arfaethedig yn debygol o effeithio ar gysylltiadau rhwng rhai cymunedau neu grwpiau, er enghraifft oherwydd ei fod yn cael ei weld fel polisi sy'n ffafrio grŵp penodol neu'n gwadu cyfleoedd i grŵp arall?

Awgrymiadau a chyngor
Wrth nodi a all polisi arfaethedig wahaniaethu'n anghyfreithlon, dylid ystyried mwy na gwahaniaethu uniongyrchol. Mae gweithredoedd gwaharddedig eraill yn cynnwys gwahaniaethu anuniongyrchol, aflonyddu, gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, gwahaniaethu yn erbyn pobl briod neu bartneriaid sifil, cyflog cyfartal a methu gwneud addasiad rhesymol.

Ar ôl ystyried yr effeithiau posibl neu wirioneddol, dylai'r sawl sy'n llunio'r polisi allu gwneud penderfyniad ar sail tystiolaeth ar yr hyn sydd angen ei wneud. Mae yna bedwar opsiwn posibl:

Opsiwn 1:
Dim newid mawr - mae'r asesiad yn dangos bod y polisi yn gadarnac mae'r dystiolaeth yn dangos nad oes posibilrwydd o wahaniaethu. Manteisiwyd ar bob cyfle i hybu cydraddoldeb.

Os mai dyma'r casgliad, bydd yn hanfodol bwysig cofnodi'r rhesymau a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd a mynd ati i sicrhau ansawdd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb. Bydd angen hysbysu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad am yr asesiad a'r rhesymau dros ei gynnal (os yw'r unigolyn hwn yn wahanol i'r un sy'n asesu'r polisi).

Opsiwn 2:
Addasu'r polisi i ddileu rhwystrau neu hybu cydraddoldeb yn well

Wrth ystyried sut i addasu'r polisi, bydd angen rhoi sylw i ddau ddull posibl. Yn gyntaf, efallai y bydd modd dileu neu newid elfen y polisi sy'n creu'r effaith ddigroeso.

Mae hyn yn ymwneud ag elfen benodol y polisi yn unig ac nid yw'n golygu y bydd angen rhoi'r gorau i'r polisi cyfan.

Enghraifft
Wrth ddatblygu asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn ymwneud â Mesur addysg bellach, nododd yr Adran Addysg a Sgiliau (yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd bellach) fod nifer anghymesur o fyfyrwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn gadael addysg amser llawn yn 16 oed ac nad oeddynt yn dychwelyd tan ar ôl 19 oed. Roedd hyn yn golygu na fyddai argymhelliad allweddol y Mesur drafft - i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr rhwng 16 a 19 oed - o fudd cyfartal i'r myfyrwyr hyn. O ganlyniad i'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb, ymestynnodd yr adran ei chymorth ariannol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Yn ail, gall y sawl sy'n llunio'r polisi gyflwyno mesurau ychwanegol i leihau neu liniaru'r effaith bosibl - drwy nodi'r camau y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn eu cymryd i ddileu neu leihau'r effaith bosibl. Gallai hyn fod yn addasiad i'r polisi, newid y polisi yn sylweddol drwy ddefnyddio dull gwahanol neu gyflwyno mesurau ychwanegol sy'n gwrthweithio'r effeithiau digroeso. Mae'n rhaid deall ac asesu effaith unrhyw newidiadau yn llawn er mwyn sicrhau na fyddant yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac y gallant gyflawni'r effaith ddisgwyliedig.

Awgrymiadau a chyngor
Cofiwch ei fod yn gyfreithiol cymryd camau cadarnhaol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw. Mae cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl nid yn unig yn gyfreithlon, ond mae'n rhan o'r dyletswyddau cyffredinol, hyd yn oed lle mae hynny'n cynnwys trin pobl anabl yn fwy ffafriol. Mae hefyd yn gyfreithlon, ac weithiau'n angenrheidiol, darparu ar gyfer un rhyw yn unig lle bo angen gwirioneddol.

Enghraifft
Wrth ystyried ei ymateb i'r cynnydd mewn troseddau â chyllyll, cynhaliodd yr Heddlu Metropolitan asesiad o effaith ar gydraddoldeb a nododd effaith debygol uchel ar gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn sgil unrhyw gamau posibl y gallent eu cymryd. Roedd yr heddlu hefyd yn ymwybodol bod aelodau o'r cymunedau hyn yn awyddus i weld rhywbeth yn cael ei wneud. Arweiniodd yr asesiad o effaith at ddatblygu strategaeth well i reoli cysylltiadau rhwng swyddogion a'r gymuned, yn enwedig yn ystod ymgyrchoedd sensitif. Roedd hyn yn cynnwys:

- gwell prosesau cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned o safbwynt gweithgareddau gweithredol
- aelodau o'r gymuned leol yn dod yn rhan o ymgyrchoedd stryd, dosbarthu taflenni, gwrando ar bobl leol ac egluro gweithdrefnau'r heddlu, a
- hyfforddiant penodol ar gyfer staff gweithredol i wella'r profiad stopio a chwilio i bawb. Roedd yn arbennig o bwysig sicrhau bod y rhai a gwestiynwyd yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda pharch a'u bod yn deall y rhesymau dros weithred yr heddlu.

Opsiwn 3:

Parhau â'r polisi er gwaethaf y posibilrwydd o effaith niweidiol neu golli cyfleoedd i hybu cydraddoldeb.

Mae'n rhaid i'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb nodi'r cyfiawnhad dros wneud hyn yn glir, a rhaid iddo gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Bydd angen cyflwyno rhesymau arbennig o gryf ar gyfer y polisïau perthnasol pwysicaf. Mae'n bwysig nodi nad oes modd cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol o dan unrhyw amgylchiadau ac y bydd angen cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail y gofynion cyfreithiol. Mae manylion pellach ar gael yn y codau ymarfer perthnasol ar wefan y Comisiwn.

Opsiwn 4:

Atal a dileu'r polisi – os yw'r polisi yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, neu os oes ganddo'r potensial i wneud hynny, rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid

Ar y pegwn arall ceir polisïau sy'n gwahaniaethu neu sy'n creu neu'n caniatáu gwahaniaethu anghyfreithlon. Rhaid atal a newid polisïau o'r fath ar unwaith. Mae nodi beth yw a beth nad yw'n wahaniaethu anghyfreithlon yn gallu bod yn anodd, hyd yn oed i'r llysoedd. I gael cymorth ar adnabod gwahaniaethu anghyfreithlon, gweler yr arweiniad ar wefan y Comisiwn, sy'n cynnwys y codau ymarfer ar bob un o'r dyletswyddau sector cyhoeddus a'r ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethu.

Cynlluniau Gweithredu

Dylid mynd ati i ddatblygu, monitro ac adolygu cynllun gweithredu.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys:

- camau a nodwyd fel rhai angenrheidiol;
- nodi pwy sy'n gyfrifol am roi camau ar waith
- amserlen i roi'r camau ar waith
- amserlen a chamau adolygu, a
- gwybodaeth am sut y caiff effeithiau camau eu gwerthuso i weld a yw canlyniadau disgwyliedig yn cael eu cyflawni'n ymarferol.

Cynnwys ac Ymgynghori

Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer cynnwys ac ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn datblygu'r polisi yn llywio'r asesiad. Dylid parhau i wneud hyn, gan sicrhau bod yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cael ei ystyried yn rhan o unrhyw weithgareddau cynnwys ac ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r polisi ar ôl iddo gael ei ddrafftio. Mae cynnwys yr asesiad drafft yn yr ymgynghoriad ar y polisi a gofyn am safbwyntiau ar ei ganfyddiadau yn ffordd dda o wneud hynny. Dylai hyn sicrhau bod modd cyflwyno safbwynt ar sail tystiolaeth ar yr opsiynau a nodwyd yn ogystal ag ar yr asesiad o effaith. Dylid ystyried barn rhanddeiliaid ar y dulliau mwyaf effeithiol o fynd i'r afael ag effeithiau digroeso. Ar ôl y prosesau cynnwys ac ymgynghori, mae'n bosibl y bydd angen i'r sawl sy'n llunio'r polisi ddychwelyd at yr asesiad o effaith a'r opsiynau a nodwyd, ac adolygu'r canfyddiadau.

Gwneud penderfyniadau

Mae'n rhaid mabwysiadu agwedd systematig a rhesymegol tuag at y gwaith o wneud penderfyniadau, gan gadw cofnodion o'r gweithdrefnau a'r penderfyniadau sy'n cael eu cyfiawnhau'n glir yn ystod pob cam. O safbwynt polisi newydd, mae'r broses o wneud penderfyniadau'n debygol o ganolbwyntio ar a ddylid mabwysiadu'r polisi a sut y dylid gwneud hynny. O safbwynt polisi sydd eisoes yn bodoli, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad yn ymwneud â'r cwestiwn a oes angen ei ddiwygio, ac o safbwynt polisi sydd eisoes yn cael ei ddiwygio, fe all ymwneud â natur y diwygiadau. Seilir y penderfyniad ar bedwar ffactor pwysig:

- Amcanion y polisi.
- Y dystiolaeth a gasglwyd a'r effeithiau a ddatgelwyd.
- Canlyniadau prosesau ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol.
- Manteision cymharol y dulliau gwahanol.

Mae'r tair dyletswydd cydraddoldeb yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi 'sylw dyledus' i'r angen i hybu cydraddoldeb. Mae'n rhaid i hyn olygu mwy na dim ond ticio'r bocsys cywir. Rhaid sicrhau bod cydraddoldeb yn cael y sylw priodol, ochr yn ochr â dyletswyddau statudol eraill.

Bydd angen pwyso a mesur yn ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, ac weithiau bydd rhaid cyfaddawdu rhwng buddiannau gwahanol. Er enghraifft, os yw'r asesiad yn awgrymu y gallai dau neu fwy o grwpiau gael eu heffeithio'n negyddol gan y cynnig, a bod anghenion y grwpiau'n gwrthdaro, bydd angen dod o hyd i gydbwysedd priodol ar gyfer y grwpiau a'r polisi perthnasol. Y peth pwysicaf yw sicrhau bod modd egluro'r casgliadau, yn enwedig os oes modd dehongli'r data mewn ffyrdd gwahanol.

Enghraifft

Cafodd asesiad o effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru effaith fawr ar ddatblygiad y strategaeth drafnidiaeth, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl. Am y tro cyntaf, mae hyn yn golygu bod y strategaeth yn sicrhau y bydd y gwaith o ddatblygu trafnidiaeth yng Nghymru yn ystyried anghenion amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.

Mae'r strategaeth yn ystyried sut mae pobl yn gallu cael mynediad i safleoedd ffisegol, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio, yn enwedig wrth ddatblygu safleoedd, cyfleusterau a gwasanaethau newydd lle mae angen i hygyrchedd fod yn ystyriaeth graidd. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o ddata a gwaith ymchwil, ac aed ati i gynnwys pobl leol drwy ddatblygu grŵp cynghori yn cynrychioli pob un o'r meysydd cydraddoldeb.

Llwyddodd hyn i nodi materion lefel uchel a fydd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pwysigrwydd parhau i ymgysylltu â'r gymuned ehangach
- costau cymharol dulliau trafnidiaeth gwahanol
- yr angen i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig, gan adlewyrchu anghenion defnyddwyr
- yr angen i wella diogelwch pobl ac eiddo gwirioneddol a chanfyddedig y system drafnidiaeth, a
- phwysigrwydd cynllunio strydoedd yn gywir.

Cam 3: Rhoi dulliau monitro, gwerthuso ac adolygu ar waith

Bydd yr asesiad, a'r prosesau cynnwys ac ymgynghori cysylltiedig, yn helpu i ragweld effeithiau tebygol y polisi ar gymunedau a grwpiau gwahanol. Fodd bynnag, bydd angen aros nes bod y polisi wedi cael ei gyflwyno cyn y bydd ei effaith wirioneddol yn hysbys. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r polisi lle mae effeithiau negyddol anfwriadol ac annisgwyl yn dod i'r amlwg. Yn ogystal, gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar effeithiolrwydd polisi. Gall demograffeg ardal newid, gan arwain at yr angen i ystyried anghenion gwahanol. Hefyd, gall darpariaeth amgen fod ar gael am y tro cyntaf drwy ffynonellau eraill, neu fe all opsiynau i leihau effaith niweidiol nad oeddynt yn bodoli adeg yr asesiad cychwynnol ddod i'r amlwg.

Mae systemau sy'n galluogi monitro effaith wirioneddol y polisi yn rhan bwysig o asesiad o effaith ar gydraddoldeb, a dylid eu nodi yn adran olaf yr asesiad. Wrth ddatblygu'r rhain, dylid ystyried y canlynol:

- Natur y data sydd ei angen a pha mor aml y bydd yn cael ei ddadansoddi.
- Sut i barhau i gynnwys grwpiau a chymunedau perthnasol wrth weithredu a monitro'r polisi (yn unol ag ymrwymiadau ehangach yn ymwneud ag adolygu'r polisi a'r cynllun cydraddoldeb).
- Pwy fydd yn gyfrifol am y monitro.
- Pryd bydd y polisi yn cael ei adolygu a pha dystiolaeth allai achosi adolygiad cynnar.

Mae natur y data a ddefnyddiwyd yn ystod yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn debygol o fod yn ddefnyddiol at ddibenion monitro hefyd. Mae'r canlynol yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol wrth fonitro'r effaith wirioneddol:

- Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys y data ychwanegol a nodwyd gennych fel rhan o'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb).
- Adborth, sylwadau a chwynion.
- Adroddiadau arolygu a gwerthusiadau perfformiad eraill.
- Gweithgareddau cynnwys.

Dylai'r data hwn gael ei ddadgyfuno ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb perthnasol a gall gynnwys, er enghraifft:

- Lefelau defnydd o wasanaethau gan grwpiau gwahanol.
- Lefelau bodlonrwydd
- Canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol.

Enghraifft
O ganlyniad i systemau monitro mewnol, nododd awdurdod cyhoeddus gyda chylch gwaith ariannu fod ei raglen ariannu trydydd sector yn methu â chyrraedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau rhyw benodol a phobl anabl yn ddigonol. O ganlyniad, penderfynodd adolygu ei drefniadau ariannu. Oherwydd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb cysylltiedig, roedd yr awdurdod yn gallu:

- Gwella ei drefniadau monitro i gynnwys grwpiau â namau gwahanol, cymunedau newydd a chymunedau sy'n datblygu.
- Sicrhau bod ei drefniadau newydd yn bodloni gofyniad cysylltiadau da'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol.

Trefnu i adolygu polisi

Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben unwaith y mae dogfen wedi'i chynhyrchu. Bydd angen cynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y polisi yn cael ei adolygu i gyd-fynd â'r asesiad a'r trefniadau monitro a gwerthuso. Bydd hefyd yn bwysig defnyddio canfyddiadau'r asesiad i nodi 'sbardunwyr' priodol a fydd yn tynnu sylw at broblemau polisi ac yn awgrymu bod angen ei ddiwygio.

Mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylid cynnal adolygiad sy'n ystyried effaith wirioneddol polisi o fewn blwyddyn o'i gyflwyno. Nid cynnal asesiad arall yw'r bwriad, ond dychwelyd at yr asesiad gwreiddiol a defnyddio'r wybodaeth a'r profiad a enillwyd drwy ei weithredu i wirio'r canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. Os yw'r awdurdod yn credu bod blwyddyn yn gyfnod rhy fyr i allu pwyso a mesur polisi penodol, dylai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb gofnodi'r rhesymau am hyn a nodi amserlen arall.

Cam 4: Cymeradwyo a chyhoeddi'r polisi

Cymeradwyo

Yn unol â'r systemau sicrhau ansawdd a amlinellwyd yn Adran 3, unwaith y mae'r asesiad wedi'i gwblhau, dylai uwch reolwr/aelod o fwrdd y sefydliad ei gymeradwyo. Bydd hyn yn dangos eu bod yn fodlon bod yr asesiad yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a bod y sefydliad yn hapus i'w gymeradwyo fel polisi ffurfiol. Dylai tîm cyfreithiol y sefydliad (os oes tîm o'r fath) gymeradwyo'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb hefyd, os yw hynny'n briodol.

Cyhoeddi canlyniadau asesiadau

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod cyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb hiliol fod â threfniadau ar waith i gyhoeddi canlyniadau asesiadau ac ymgynghoriadau unrhyw bolisi perthnasol hefyd. Mae'n ymarfer da gwneud yr un peth ar gyfer y dyletswyddau eraill a'r meysydd cydraddoldeb ehangach gan mai'r bwriad yw bod yn agored am lunio polisïau a bod yn dryloyw am y penderfyniadau sy'n llywio cynllun a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Bydd canolbwyntio ar y materion sydd wedi'u hystyried a'r camau ymarferol a gymerwyd neu'r camau arfaethedig yn dangos bod yr awdurdod wedi ystyried materion cydraddoldeb ac yn brawf o'i ymrwymiad i hybu cydraddoldeb.

Mae modd cyhoeddi canlyniadau asesiadau mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

- Cyhoeddi asesiadau unigol yn llawn.
- Cyhoeddi cynlluniau gweithredu'r asesiadau, ynghyd â chrynodebau byr.
- Cyhoeddi adroddiad cryno yn amlinellu'r camau sydd wedi deillio o asesiadau unigol fel rhan o adroddiadau blynyddol ar y dyletswyddau cydraddoldeb.

Noder: Rhaid sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar gael yn llawn bob amser ar gais y cyhoedd neu sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys bodloni unrhyw geisiadau am fersiynau hygyrch.

Cam 5: Monitro ac adolygu'r cynllun gweithredu

Fel mae Cam 3 yn dangos, nid yw proses yr asesiad yn dod i ben unwaith y mae'r polisi yn cael ei gyflwyno. Nid yw'n ddigon mynd ati i wneud y newidiadau y disgwylir iddynt ddileu effaith niweidiol neu hybu cydraddoldeb; mae'n rhaid mynd ati hefyd i roi'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r asesiad ar waith a defnyddio'r prosesau monitro, gwerthuso ac adolygu i sicrhau mai'r effaith a ragwelwyd yw'r effaith wirioneddol a bod camau'n cael eu rhoi ar waith.

Gall methu â monitro effaith wirioneddol polisi sydd eisoes yn bodoli adael awdurdod cyhoeddus yn agored i her gyfreithiol, yn ogystal â chamau gorfodi gan y Comisiwn. Fel yr eglurwyd ar ddechrau'r arweiniad hwn, mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn offeryn i helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus barhau i ufuddhau i'r dyletswyddau hynny mewn perthynas â pholisïau a swyddogaethau, hyd yn oed os ydynt wedi cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb, ac mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus fodloni eu hunain yn rheolaidd eu bod yn parhau i gyflawni pob un o'r dyletswyddau cyffredinol.

Atodiad 1: Y dyletswyddau cyffredinol ar hil, rhyw ac i bobl anabl

Hil (yn weithredol ers 2000)

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus a restrir, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon
- hybu cyfle cyfartal, a
- hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

Pobl anabl (yn weithredol ers 2006)

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill
- dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf
- dileu aflonyddu ar bobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau
- hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, a
- chymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

Rhyw (gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd) (yn weithredol ers 2007)

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, a
- hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod.

Mae'r ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn cynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â chyflogau hefyd.

Atodiad: Adnoddau

Codau ymarfer

Y cod ymarfer yw'r arweiniad statudol ar ofynion cyfreithiol pob dyletswydd. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae copïau caled o'r dogfennau hyn ar gael o'r Llyfrfa.

Dyletswydd cydraddoldeb hiliol

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol (Cymru a Lloegr)

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol (yr Alban)

Dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl (Cymru a Lloegr)

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl (yr Alban)

Dyletswydd cydraddoldeb rhywiol

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb rhywiol (Cymru a Lloegr)

Cod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb rhywiol (yr Alban)

Arweiniad anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae amrywiaeth o ganllawiau anstatudol ar gael ar wefan y Comisiwn. Yr hyn sy'n dilyn yw detholiad o'r rhai sydd fwyaf perthnasol i asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

Tystiolaeth a gwybodaeth

Dyletswydd cydraddoldeb hiliol

Monitro ethnigrwydd: arweiniad i awdurdodau cyhoeddus

Y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol: monitro ethnigrwydd – arweiniad ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban

Dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl

Dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl: casglu tystiolaeth

Pecyn hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a'u grwpiau

Dyletswydd cydraddoldeb rhywiol

Casglu a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol

Ystadegau rhyw: gwerthusiad

Ymgynghori a chynnwys

Dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl

Dyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl: arweiniad ar gynnwys

Dyletswydd rhywiol

Ymgynghori â rhanddeiliaid ar gydraddoldeb rhywiol

Rhyw ac ymgysylltu â chymunedau

Atodiad 3: Geirfa

Mae'r termau yn yr eirfa hon at ddibenion esboniadol yn unig ac ni ddylid eu hystyried fel diffiniadau cyfreithiol.

Addasiadau rhesymol

Term cyfreithiol yw hwn a gyflwynwyd o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Yn ei gyd-destun, mae'n golygu bod gan gyflogwr neu ddarparwr gwasanaeth ddyletswydd statudol i wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas. Gallai addasiadau rhesymol gynnwys newid polisi neu ymarfer, dileu rhwystr corfforol, darparu cymorth atodol neu ddarparu gwasanaeth mewn ffordd wahanol.

Adolygiad barnwrol

Cais i'r Uchel Lys neu i Lys Sesiwn yr Alban yn gofyn i'r llys adolygu sut yr aeth awdurdod cyhoeddus neu gyrff penodol eraill ati i wneud penderfyniad. Mae'r llys yn gallu dileu penderfyniad, gan orfodi'r awdurdod i ail-ystyried y mater.

Aflonyddu

Ymddygiad digroeso sydd â'r bwriad neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn neu sy'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, gwaradwyddus neu dramgwyddus. Gellid ystyried gweithredoedd neu ymddygiad penodol fel aflonyddu hyd yn oed os nad ydynt wedi'u hanelu'n uniongyrchol at y derbynnydd ac nad ydynt wedi'u bwriadu i fod yn dramgwyddus. Dylid cofio y gall effaith yr ymddygiad ei ddiffinio fel aflonyddu yn hytrach na'r bwriad. Nid yw'r diffiniad statudol yn cynnwys aflonyddu ar sail lliw neu genedligrwydd, ond gall aflonyddu o'r fath gynnwys triniaeth lai ffafriol, a gall fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon.

Asesiad o effaith

Asesiad o effaith yw'r broses sy'n galluogi awdurdod i nodi a gweithredu ar yr angen i addasu polisïau ac arferion er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cydraddoldeb. Mae'r rheoliadau dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i awdurdodau a restrir yn pennu'r gofyniad i awdurdod gynnwys ei ddulliau asesu effaith yn ei gynlluniau cydraddoldeb.

Awdurdod cyhoeddus

At ddibenion y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a'r ddyletswydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, mae pob awdurdod cyhoeddus yn gorff sy'n sicr bod ei swyddogaethau o natur gyhoeddus. O dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, at ddibenion y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol, mae awdurdod cyhoeddus yn gorff a enwyd, diffiniwyd neu ddisgrifiwyd yn atodlen 1A i'r Ddeddf neu, yn dibynnu ar y cyd-destun, yn gorff a enwyd, diffiniwyd neu ddisgrifiwyd yn un o'r atodlenni i Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Gorchymyn Dyletswyddau Statudol) 2001 a'r gorchmynion dilynol.

Caffael cyhoeddus

Y trefniadau cytundebol, neu'r trefniadau eraill, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyhoeddus i gaffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o sefydliad allanol.

Casglu tystiolaeth/gwybodaeth

Mae'n rhaid i gynlluniau cydraddoldeb gynnwys datganiad ar drefniadau casglu gwybodaeth yr awdurdod. Dylid casglu digon o wybodaeth i hysbysu awdurdodau a yw eu cynllun gweithredu a'u gweithgareddau a swyddogaethau yn gwella cydraddoldeb ar sail hil, anabledd a rhyw. Hefyd, mae'n rhaid i'r Cynlluniau bennu'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r wybodaeth i helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, adolygu effeithiolrwydd y cynllun gweithredu yn rheolaidd a pharatoi cynlluniau cydraddoldeb dilynol.

Cod ymarfer statudol

Dogfen sy'n cynnig arweiniad ymarferol ar y gyfraith, sydd wedi'i chymeradwyo gan y senedd ac sy'n cael ei derbyn fel tystiolaeth mewn llys barn.

Cyhoeddi

Sicrhau bod deunydd ar gael i'r cyhoedd; er enghraifft, drwy lunio dogfen ysgrifenedig neu electronig i'w dosbarthu. Os yw deunydd i gael ei ystyried fel deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd, rhaid sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i gael gafael ar y wybodaeth, felly, er enghraifft, dylid sicrhau bod fformatau neu ieithoedd gwahanol yn cael eu cynnig fel mater o drefn.

Cymesuredd

Dylai'r pwyslais a roddir ar gydraddoldeb fod yn gymesur â'i berthnasedd i swyddogaeth benodol. Gall y dull hwn olygu rhoi mwy o ystyriaeth ac adnoddau i swyddogaethau neu bolisïau sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cyhoedd a gweithwyr cyflogedig.

Cynllun cydraddoldeb hiliol

Cynllun ymarferol wedi'i amserlennu sy'n pennu trefniadau awdurdod ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae'r cod ymarfer ar y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i gynllun o'r fath ei gynnwys.

Cynllun cydraddoldeb i bobl anabl

Cynllun ymarferol wedi'i amserlennu sy'n pennu trefniadau awdurdod ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae'r cod ymarfer ar y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i gynllun o'r fath ei gynnwys.

Cynllun cydraddoldeb rhywiol

Cynllun ymarferol wedi'i amserlennu sy'n pennu trefniadau awdurdod ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ac yn pennu ei amcanion cydraddoldeb rhywiol. Mae'r cod ymarfer ar y ddyletswydd cydraddoldeb rhywiol yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i gynllun o'r fath ei gynnwys.

Cynllun gweithredu

Rhestr strategol sy'n pennu'r:

- amcanion dymunol
- camau a nodir fel rhai angenrheidiol
- pwy sy'n gyfrifol am roi'r camau ar waith
- amserlen ar gyfer gweithredu
- amserlen a chamau i'w hadolygu, a
- sut y caiff effeithiau camau eu gwerthuso i ganfod a yw canlyniadau disgwyliedig yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

Cynnwys

Proses ymgysylltu â rhanddeiliaid o feysydd cydraddoldeb a amddiffynnir sy'n defnyddio dulliau hygyrch, sy'n gorfod cael ffocws a bod yn gymesur, yn ddylanwadol, yn dryloyw ac yn barhaus. Mae 'cynnwys' yn gofyn am fwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid nag 'ymgynghori'.

Data ansoddol

Dyma wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan unigolion am eu profiadau, gan ddefnyddio prosesau ymgynghori a chynnwys a gwaith ymchwil gan amlaf. Mae data ansoddol yn rhoi llai o bwyslais ar ystadegau fel arfer.

Data meintiol

Dyma wybodaeth ystadegol a gofnodir fel rhifau, sy'n deillio o'r boblogaeth gyffredinol neu samplau o'r boblogaeth gan amlaf. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi drwy ddefnyddio ystadegau disgrifiadol yn aml, sy'n ystyried dosbarthiadau proffil cyffredinol a thueddiadau yn y data.

Demograffeg

Astudio neu goladu nodweddion y boblogaeth fel rhyw, oedran, statws priodasol, tarddiad ethnig, addysg, incwm, crefydd a phreswylfeydd.

Dyletswydd gyffredinol

Y gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i: hybu cyfle cyfartal; dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 a Deddf Cyflog Cyfartal 1970; a dileu aflonyddu ar sail rhyw ac anabledd. Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd hefyd yn cynnwys gofyniad i hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl; annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chymryd camau i ystyried anableddau pobl ifanc, hyd yn oed os yw hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

Dyletswyddau penodol

Mae'n ofynnol i rai awdurdodau cyhoeddus a restrir yn y rheoliadau gydymffurfio â dyletswyddau penodol. Bwriad y dyletswyddau hyn yw helpu awdurdodau i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb.

Effaith niweidiol

Mae effaith niweidiol yn digwydd pan fydd penderfyniad, ymarfer neu bolisi yn cael effaith negyddol ar grŵp a amddiffynnir. Gallai hyn ddod i'r amlwg, er enghraifft, mewn gwahaniaeth sylweddol o ran patrymau cynrychiolaeth neu ganlyniadau rhwng grwpiau a amddiffynnir, gyda'r gwahaniaeth yn niweidio un neu fwy o'r grwpiau a amddiffynnir.

Effaith wahaniaethol

Bydd polisïau, ymarferion, meini prawf ac ati yn effeithio ar y grwpiau amrywiol a amddiffynnir mewn ffyrdd gwahanol: yr enw am hyn yw effaith wahaniaethol. Weithiau mae hyn yn negyddol, gan achosi anfantais, ond ar adegau eraill mae'n gallu bod yn niwtral, lle nad oes mantais nac anfantais i neb, neu'n gadarnhaol – er enghraifft, diwallu angen am wasanaeth penodol.

Grŵp a amddiffynnir

Pobl sy'n cael eu hamddiffyn ac sydd â hawliau o dan ddeddfwriaeth fel Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

Grŵp cydraddoldeb

Mae grŵp cydraddoldeb yn cyfeirio at grŵp sy'n perthyn i un o'r chwe maes cydraddoldeb: rhyw (gan gynnwys hunaniaeth o ran rhyw); hil; anabledd; crefydd neu gredo; oedran, a chyfeiriadedd rhywiol.

Grwpiau lluosog

Gall unigolyn berthyn i un neu fwy o'r grwpiau a amddiffynnir a chael ei amddiffyn gan y ddeddfwriaeth wahanol a pherthnasol o ganlyniad. Er enghraifft, byddai gan fenyw o darddiad ethnig sydd ag anabledd hawliau a ddiogelir o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn cyfeirio at gymhwyso darpariaeth, maen prawf neu ymarfer sy'n rhoi pobl o grŵp penodol (a ddiffinnir ar sail rhyw, hil, oedran, crefydd neu gredo, a chyfeiriadedd rhywiol) o dan anfantais. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn anghyfreithlon os na ellir cyfiawnhau'r arferiad fel modd cymesur o gyflawni amcan dilys. Ar hyn o bryd mae pobl anabl yn cael eu diogelu gan y gwaharddiad ar wahaniaethu sy'n gysylltiedig ag anabledd yn hytrach na gwahaniaethu anuniongyrchol.

Ar sail lliw neu genedligrwydd, gwahaniaethu anuniongyrchol yw'r defnydd o ofyniad neu amod nad yw'n ymddangos yn un sy'n gwahaniaethu ac sy'n berthnasol i bawb. Fodd bynnag, dim ond cyfran sylweddol is o bobl o grŵp hiliol penodol sy'n gallu ei gyflawni, mae'n niweidiol i rywun yn y grŵp hwnnw ac yn amhosibl ei gyfiawnhau yn wrthrychol.

Gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag anabledd

Triniaeth lai ffafriol ar sail rhesymau sy'n gysylltiedig ag anabledd yr unigolyn, na ellir eu cyfiawnhau gan y cyflogwr neu ddarparwr y gwasanaeth.

Gwahaniaethu uniongyrchol

Triniaeth lai ffafriol ar sail hil neu darddiad ethnig, oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, neu grefydd neu gredo. Er enghraifft, meddygfa yn gwrthod cofrestru claf newydd oherwydd ei fod yn Deithiwr. Ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol ac mae'n anghyfreithlon ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn.

Gweithredu cadarnhaol

Mae gweithredu cadarnhaol yn disgrifio mesurau a fwriedir ar gyfer grŵp penodol i wneud iawn am wahaniaethu yn y gorffennol neu i wrthbwyso'r anfanteision sy'n deillio o agweddau, ymddygiad a strwythurau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Gallai gweithredu cadarnhaol gynnwys darparu hyfforddiant, gan ddefnyddio hysbysebu a llenyddiaeth recriwtio i dargedu grwpiau penodol sy'n cael eu tangynrychioli.

Nid yw gweithredu cadarnhaol yr un fath â gwahaniaethu cadarnhaol, sy'n ffafrio unigolyn yn awtomatig oherwydd ei fod yn perthyn i grŵp penodol.

Lliniaru

'Lliniaru' yw mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i leihau effeithiau negyddol polisi neu bolisïau. Er enghraifft, gall darparu gwasanaeth dros y ffôn yn unig achosi problemau i'r rhai sydd â rhwystr iaith. Yn hytrach na newid y dull o ddarparu'r gwasanaeth, gellid lliniaru hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn.

Monitro

Y broses o gasglu, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i fesur perfformiad, cynnydd neu newid.

Polisïau ac arferion

Pob gweithgaredd arfaethedig a chyfredol o eiddo'r awdurdod.

Rhybudd i gydymffurfio

Os nad yw awdurdod cyhoeddus yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyffredinol neu benodol, gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) roi rhybudd i gydymffurfio i'r awdurdod hwnnw. Bydd y rhybudd yn datgan bod rhaid i'r awdurdod gyflawni ei ddyletswydd a hysbysu'r Comisiwn o fewn 28 diwrnod ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd neu'n bwriadu ei chyflawni.

Dim ond os yw'r Comisiwn wedi cynnal asesiad ffurfiol o dan adran 31 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 y gellir rhoi rhybudd am dorri dyletswydd gyffredinol. Gall y Comisiwn gyflwyno cais i'r llys sirol neu'r llys siryf os yw unrhyw awdurdod wedi methu cydymffurfio â gofyniad a gyflwynwyd gan y gorchymyn yn gofyn i'r awdurdod gydymffurfio.

Sgrinio

Ymarferiad byr i benderfynu pa mor berthnasol yw polisi neu bolisi arfaethedig i gydraddoldeb.

Swyddogaethau

Amrywiaeth lawn gweithgareddau, dyletswyddau a phwerau awdurdod cyhoeddus.

Sylw dyledus

Y gofyniad i roi ystyriaeth briodol i'r angen i hybu cyfle cyfartal yn unol â'i berthnasedd i anabledd, hil a rhyw.

Cysylltu â ni

Cymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llinell gymorth
RHADFFON RRLR-UEYB-UYZL
3ydd Llawr, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Ffôn: 0845 604 8810
Ffôn testun: 0845 604 8820
Ffacs: 0845 604 8830

Lloegr

Equality and Human Rights Commission Helpline
FREEPOST RRLL-GHUX-CTRX
Arndale House, Arndale Centre, Manchester M4 3AQ

Ffôn: 0845 604 6610
Ffôn testun: 0845 604 6620
Ffacs: 0845 604 6630

Amseroedd agor y Llinell Gymorth:

8am–6pm Llun i Gwener

Mae galwadau o linellau ffôn BT yn costio'r un faint â galwadau lleol, ond gall galwadau o ffonau symudol a darparwyr eraill amrywio.

Gall galwadau gael eu monitro at ddibenion hyfforddi ac ansawdd.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Tachwedd 2009
ISBN 978 1 84206 240 1

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission